



ADRODDIAD YMGYNGHORI

CYNNIG Y DDARPARIAETH ADDYSG GATHOLIG

- Cau Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyr Sant Anthony yn Saltney erbyn 31 Awst 2027.
- Uno Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyr Dewi Sant yn yr Wyddgrug, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyr y Santes Fair yn y Fflint ac Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyr Sant Richard Gwyn yn y Fflint.
- Byddai'r uno'n golygu:
 - y byddai'r ysgolion unigol yn cau erbyn 31 Awst 2027,
 - y byddai ysgol Gatholig wirfoddol a gynorthwyr 3-18 oed cyfrwng Saesneg newydd gydag enw a rhif ysgol newydd, yn agor ar 1 Medi 2027,
 - y byddai'r ysgol newydd yn gweithredu dros y tri safle presennol nes bydd adeilad ysgol newydd yn cael ei adeiladu (rhagwelir Medi 2030).



CYNNWYS

RHAN A. TROSOLWG.....	3
A.1. Cyflwyniad.....	3
A.2. Y Cynnig.....	3
RHAN B. Y BROSES YMGYNGHORI	4
B.1. Llinell amser	4
B.2. Dogfennau.....	5
B.3. Ymgysylltu.....	5
B.4. Ffurflenni Ymateb	6
RHAN C. CANLYNIADAU'R YMGYNGHORIAD	7
C.1. Dull Cyfathrebu	7
C.2. Canlyniadau'r Ffurflen Ymateb	7
C.3. Effaith ar y Gymraeg	30
C.4. Ffurflenni Ymateb Plant a Phobl Ifanc	37
C.5. Ymateb Estyn.....	38
C.6. Asesu'r Cynnig yn dilyn yr Ymgynghoriad	46
RHAN D. CAMAU NESAF	47
D.1. Cymeradwyaeth i Fwrw Ymlaen	47
D.2. Hysbysiad Statudol a Chyfnod Gwrthwynebu	47
RHAN E. ATODIADAU	48
E.1. Budd-ddeiliaid allweddol.....	48
E.2. Ymgynghoriad Plant.....	50
E.3. Ffurflen Ymateb.....	58
E.4. Ymateb Estyn.....	62
E.5. Crynodeb o Ymateb i'r Llythyr Cyfreithiol	66

RHAN A. TROSOLWG

A.1. Cyflwyniad

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Esgobaeth Gatholig Wrecsam (“*yr Esgobaeth*”) a Chyngor Sir y Fflint (“*y Cyngor*”), gynnig i ad-drefnu’r ddarpariaeth addysg Gatholig yn Sir y Fflint.

Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori statudol, ac yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2026 (“*y Cod*”), bydd yr adroddiad hwn yn:

- Rhoi crynodeb o’r materion a godwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw
- Ymateb i’r rhain drwy ddarparu eglurhad, diwygio’r cynnig neu wrthod y pryderon, gyda rhesymau i gefnogi
- Amlinellu ymateb Estyn i’r ymgynghoriad yn llawn
- Ymateb i sylwadau Estyn drwy ddarparu eglurhad, diwygio’r cynnig neu wrthod y pryderon, gyda rhesymau i gefnogi hynny

Dan y Cod, fe all yr adroddiad hwn hefyd wneud argymhellion ynglŷn â sut i symud ymlaen, megis:

- Cyhoeddi’r cynigion yr ymgynghorwyd yn eu cylch, gydag addasiadau priodol
- Anghofio am y cynigion a chadw’r sefyllfa bresennol
- Ail-lunio’r cynigion yn sylweddol ac ymgynghori eto

Dylai’r rhai sy’n gwneud penderfyniadau ystyried canlyniadau’r broses ymgynghori cyn penderfynu ar unrhyw argymhelliad sy’n ymwneud â’r cynnig.

A.2. Y Cynnig

Cynigir:

- Cau Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony yn Saltney erbyn 31 Awst 2027.
- Uno Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Dewi Sant yn yr Wyddgrug, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair yn y Fflint ac Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn yn y Fflint.
- Byddai’r uno’n golygu:
 - y byddai’r ysgolion unigol yn cau erbyn 31 Awst 2027
 - y byddai ysgol Gatholig wirfoddol a gynorthwyir 3-18 oed cyfrwng Saesneg newydd gydag enw a rhif ysgol newydd, yn agor ar 1 Medi 2027
 - y byddai’r ysgol newydd yn gweithredu dros y tri safle presennol nes bydd adeilad ysgol newydd yn cael ei adeiladu (rhagwelir Medi 2030).

RHAN B. Y BROSES YMGYNGHORI

B.1. Llinell amser

B.1.i. Datblygu'r Cynigion Statudol, Mehefin 2025 – Ebrill 2026

Fis Tachwedd 2023, dechreuodd yr Esgobaeth gynnal trafodaethau gyda phenaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr y chwe ysgol Gatholig yn Sir y Fflint. Oherwydd natur sensitif y trafodaethau ac er mwyn sicrhau bod yr holl ysgolion yn aros yn sefydlog, cynhaliwyd y cyfarfodydd yn gwbl gyfrinachol nes y cytunwyd ar ffordd ymlaen arfaethedig.

Cafwyd sawl cyfarfod dros sawl mis i ystyried yr holl ddewisiadau. Nodwyd manteision ac anfanteision pob dewis i benderfynu beth y gellir ei wneud ar gyfer dyfodol addysg Gatholig yn Sir y Fflint. Pan nodwyd dewis fel y ffordd orau o symud ymlaen, gofynnodd yr Esgobaeth am gymorth y Cyngor i ddechrau'r broses statudol.

Ym mis Mehefin 2025 lansiwyd ymgynghoriad i dderbyn safbwyntiau budd-ddeiliaid ar y cynnig. Ymgysylltodd nifer o bobl a sefydliadau gyda'r broses a darparu adborth ar sawl maes a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, penderfynodd Cabinet y Cyngor y dylid parhau â'r broses ac fe gyflwynwyd Hysbysiad Statudol ym mis Tachwedd 2025, gyda chyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod.

Ond, cyn gwneud y penderfyniad terfynol bu'n rhaid oedi'r broses statudol oherwydd her gyfreithiol hwyr. Er mwyn arfer diwydrwydd dyladwy, ceisiodd y Cyngor gyngor cyfreithiol a sicrhau ei fod yn treulio digon o amser yn ystyried y cyngor a gafwyd. Derbyniodd y Cyngor gyngor cyfreithiol mewn ymateb i hynny, roedd yr amser a oedd ei angen i ystyried y cyngor hwnnw yn golygu nad oedd modd cadw at yr amserlen statudol a nodwyd yn ail rifyn y Cod. Gan fod y Cod yn gofyn am gydymffurfio'n llwyr gyda'r terfynau amser, fe ddaeth y cynnig gwreiddiol 'i ben' heb benderfyniad.

B.1.ii. Cyn yr Ymgynghoriad

Yn unol â'r Cod, gan fod y cynnig yn ymwneud ag ad-drefnu ysgolion y mae eu tir a/neu eu hadeiladau yn cael eu dal mewn ymddiriedolaeth, neu sydd â chymeriad crefyddol dynodedig, roedd angen ymgynghori gyda'r ymddiriedolwyr a/neu'r corff crefyddol priodol cyn cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori.

Ni ddaeth opsiynau newydd i'r amlwg yn ystod yr ymgynghoriad gyda'r ymddiriedolwyr ac fe gefnogwyd y dewis a ffefrir.

B.1.iii. Cymeradwyaeth y Cabinet i Ymgynghori

Ddydd Mercher 13 Mai 2026 penderfynodd y Cabinet:

- Bod y Cabinet yn rhoi cymeradwyaeth i ddechrau ymgynghori gyda budd-ddeiliaid perthnasol ar y cynnig i gau Ysgol Gynradd Gatholig Sant Anthony, Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant, Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair ac Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn, ac agor ysgol Gatholig 3-18 oed newydd i ddarparu darpariaeth ddysgu i'r gymuned Gatholig. Mae'r Cabinet hefyd yn nodi y byddai unrhyw gynnig, pe bai'n cael ei gymeradwyo yn dilyn y prosesau statudol gofynnol, yn cael ei roi ar waith erbyn mis Medi 2027.

B.1.iv. Cyfnod Ymgynghori

Agorodd y cyfnod ymgynghori ddydd Mawrth 16 Mehefin 2026 a daeth i ben am 11.59pm ddydd Mercher 29 Gorffennaf 2026. Roedd hynny'n caniatáu o leiaf 42 diwrnod i dderbyn ymatebion, gydag o leiaf 20 o'r rhain yn ddyddiau ysgol.

B.2. Dogfennau

Cynhyrchwyd y dogfennau canlynol, yn Gymraeg ac yn Saesneg, i ymgynghoreion eu hystyried a'u galluogi nhw i gymryd rhan yn llawn yn y broses ymgynghori.

- Ymgynghoriad Statudol
- Trosolwg o'r Ymgynghoriad Statudol
- Dogfen Ymgynghori Plant a Phobl Ifanc
- Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg
- Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned
- Asesiad o'r Effaith ar Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Asesiad o Effaith Integredig
- Ffurflen Ymateb

Er mwyn i blant a phobl ifanc gymryd rhan yn y broses ymgynghori, crëwyd dogfen ymgynghori yn benodol ar eu cyfer yn defnyddio graffig a thestun addas i'w hoedran.

Wedi'i gynnwys yn nogfen y plant oedd fersiwn hawdd ei ddefnyddio o'r ffurflen ymateb er mwyn i blant a phobl ifanc fynegi eu barn ar y cynnig.

Cafodd yr holl ddogfennau eu cyhoeddi'n electronig ar wefan y Cyngor.

Derbyniodd y chwe ysgol Gatholig becyn ymgynghori a oedd yn cynnwys copi papur o bob dogfen. Fe alluogodd hyn bobl i weld y wybodaeth os nad oedd modd iddynt gael mynediad at y fersiynau electronig.

Roedd copïau papur a fersiynau eraill (print bras, Braille ac ati) hefyd ar gael ar gais.

Mae'r holl ddogfennau ar gael yn yr adran Moderneiddio Ysgolion ar wefan Cyngor Sir y Fflint drwy'r ddolen ganlynol:

<https://www.flintshire.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Catholic-Education-Proposal.aspx>

B.3. Ymgysylltu

B.3.i. Ymgynghoreion

Pan agorodd yr ymgynghoriad ar 16 Mehefin 2026, cafodd y budd-ddeiliaid allweddol wybod trwy gyfrwng e-bost.

Roedd yr e-bost yn cynnwys dolen i'r dudalen ar wefan y Cyngor lle'r oedd modd gweld y dogfennau a'r ffurflen ymateb.

Mae rhestr o'r budd-ddeiliaid allweddol ar gael yn Atodiad E.1.

B.3.ii. Digwyddiadau

Gwahoddwyd staff a llywodraethwyr y pedair ysgol sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cynnig i ddigwyddiadau ymgynghori ar wahân gydag uwch aelodau o'r Esgobaeth a'r Cyngor yn bresennol (8 sesiwn i gyd).

Yn ogystal, gwahoddwyd llywodraethwyr y ddwy ysgol Gatholig nad ydynt yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol i fynychu un sesiwn ar y cyd.

Roedd y digwyddiadau yn gyfle i'r cyfranogwyr gael trosolwg o'r cynnig a pham ei fod wedi'i ddwyn ymlaen. Roedd modd iddynt wedyn ofyn cwestiynau, gwneud sylwadau neu fynegi unrhyw bryder am y cynnig.

Cafodd yr holl ddigwyddiadau eu cynnal ar-lein, gan bara awr.

Ni chynhaliwyd unrhyw ddigwyddiad ymgynghori cyhoeddus.

B.3.iii. Digwyddiadau Plant a Phobl Ifanc

Cynhaliwyd sesiynau gyda chynrychiolwyr disgyblion o'r chwe ysgol Gatholig.

Yn ystod sesiynau'r disgyblion, rhoddodd y swyddogion gyflwyniad byr yn crynhoi'r cynnig, gofyn cwestiynau i ysgogi trafodaeth a chofnodi barn y cyfranogwyr am y cynnig (gweler E.2).

Cynhaliwyd sesiwn hefyd gyda Fforwm Ieuenctid Sir y Fflint, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Ysgolion Uwchradd Sir y Fflint. Roedd y sesiwn yn cynnwys cyflwyniad am y cynnig, trafodaethau grŵp a chofnodi'r farn a roddwyd (E.2.vii).

B.4. Ffurflenni Ymateb

Ar y ffurflen ymateb (Atodiad E.3) bu'n rhaid i ymgynghoreion nodi a oeddynt yn cytuno neu'n anghytuno â phob agwedd o'r cynnig. Roedd y ffurflen hefyd yn:

- Cynnwys blwch sylwadau er mwyn i ymatebwyr gael rhoi adborth mwy manwl ar eu dewisiadau
- Gofyn i bobl nodi pa ysgol/ysgolion yr oeddynt yn gysylltiedig â nhw
- Gofyn i bobl ym mha gapasiti oedden nhw'n ymateb (e.e. rhiant/gofalwr, disgybl, llywodraethwr, aelod o staff, aelod o'r gymuned ac ati)

Roedd rhannau eraill o'r ffurflen yn cynnwys cwestiynau ynglŷn â sut y gallai'r cynnig effeithio ar safonau'r Gymraeg a gwybodaeth am gydraddoldeb.

B.4.i. Cyflwyno'r Ffurflen

Roedd modd i'r ymgynghoreion gyflwyno eu ffurflen ymateb yn y ffyrdd canlynol:

- Ar-lein drwy ddolen a oedd ar gael yn y ddogfen ymgynghori ac ar wefan y Cyngor
- Ar-lein drwy god QR a oedd hefyd ar gael yn y ddogfen ymgynghori ac ar wefan y Cyngor
- Ar-lein drwy gyfeiriad e-bost arbennig
- Drwy bostio copi papur mewn i 'flwch post' arbennig, wedi'i leoli ym mhob un o'r chwe ysgol Gatholig
- Drwy anfon copi papur drwy'r post yn uniongyrchol at y Cyngor i'r cyfeiriad a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori
- Drwy fynd â'u ffurflen i un o swyddfeydd y Cyngor

B.4.ii. Dewisiadau Eraill

Cafodd pobl hefyd eu hannog i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad drwy:

- Anfon sylw, ymholiad neu gais i gyfeiriad e-bost arbennig neu yn y post
- Gofyn am wybodaeth dros y ffôn

Croesawyd gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg, ac fe roddwyd ymatebion yn yr un iaith heb oedi.

RHAN C. CANLYNIADAU'R YMGYNGHORIAD

C.1. Dull Cyfathrebu

Cafodd y Cyngor gyfanswm o **2,813 o ymatebion** gan ymgynghoreion yn ystod yr ymgynghoriad. Fe gasglwyd y rhain ar ffurf:

Dull Cyflwyno / Sylwadau a Wnaed	Nifer
Ffurflen ymateb drwy'r ddolen	2,722
Ffurflen ymateb drwy'r cod QR	12
Ffurflen ymateb ar ffurf copi papur (drwy'r post, blwch post yr ysgol, wedi'i ddanfôn â llaw)	11
Ffurflen Ymateb Plant a Phobl Ifanc (copi papur)	41
Deisebau	0
Negeseuon e-bost	20
Llythyrau (unigol ac ar y cyd)	3
Estyn	1
Cyrff Llywodraethu Ysgol	1
Undebau	0
Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol	2
Cyfanswm	2,813


C.2. Canlyniadau'r Ffurflen Ymateb

Mae'r tablau a'r ffigurau isod yn dangos ymatebion a roddwyd i gwestiynau 1, 3 a 4 y ffurflen ymateb.

C.2.i. Cefnogaeth ar gyfer y cynnig

Nodwch a ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â phob agwedd o'r cynnig


Dewisiadau Ateb	Ydw	Nac ydw	Cyfanswm
Cau Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony yn Saltney erbyn 31 Awst 2027	105	2,640	2,745
Uno Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Dewi Sant yn yr Wyddgrug, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair yn y Fflint ac Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn erbyn 31 Awst 2026 gan weithredu dros y tri safle presennol. Bydd yr ysgol Gatholig wirfoddol a gynorthwyir 3-18 oed cyfrwng Saesneg newydd yn agor fis Medi 2027 gydag enw a rhif ysgol newydd.	101	2,644	2,745
Byd yr ysgol newydd yn gweithredu dros y tri safle presennol nes bydd adeilad ysgol newydd yn barod (1 Medi 2030).	104	2,641	2,745



C.2.ii. Cysylltiadau Ysgolion

Gyda pha ysgol(ion) ydych chi'n gysylltiedig?


Dewisiadau Ateb	Nifer	Canran
Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony	196	7.14%
Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Dewi Sant	1,756	63.97%
Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair	80	2.91%
Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn	470	17.12%
Arall	243	8.85%
Cyfanswm	2,745	100.00%



C.2.iii. Perthnasoedd Ysgol

Beth yw eich cysylltiad/perthynas â'r ysgol rydych chi wedi nodi cysylltiad â hi?

Dewisiadau Ateb	Nifer	Canran
Rwy'n rhiant/gofalwr i ddisgybl yn yr ysgol	521	18.98%
Rwy'n ddisgybl yn yr ysgol	36	1.31%
Rwy'n ddarpar riant/gofalwr i ddisgybl yn yr ysgol	54	1.97%
Rwy'n athro/athrawes/aelod arall o staff yn yr ysgol	97	3.53%
Rwy'n llywodraethwr yn yr ysgol	38	1.38%
Rwy'n aelod o'r gymuned	1,882	68.56%
Arall (nodwch):	117	4.26%
Cyfanswm	2,745	100.00%



C.2.iv. Themâu Ffurflenni Ymateb

Gofynnwyd i bobl roi eu sylwadau mewn blwch sylwadau neu egluro pa elfen o'r cynnig yr oeddynt yn ei chefnogi neu'n ei gwrthwynebu. Croesawyd cynigion eraill hefyd.

Mae'r sylwadau a wnaed wedi'u crynhoi a'u trefnu yn themâu.

Rhoddwyd pennawd i bob thema, ynghyd â disgrifiad byr ac enghreifftiau o'r sylwadau a ddaeth i law.

Yn unol â'r Cod, mae'r Cyngor wedi ymateb i bob thema drwy ddarparu eglurhad, diwygio'r cynnig neu wrthod y pryderon, gyda rhesymau i gefnogi hynny.



Thema 1: Teithio, Cludiant a Diogelu Dysgwyr

Pwyntiau Allweddol

- Pryderon ynghylch plant bach yn gorfod teithio cryn bellter i'r Fflint
- Siwrneiau hirach a diwrnodau ysgol hirach
- Pryderon diogelu wrth i blant o wahanol oedrannau deithio gyda'i gilydd ar gludiant ysgol
- Anawsterau i rieni wrth fynd i ddigwyddiadau ysgol ac ymateb i argyfyngau
- Diffyg eglurder o ran trefniadau cludiant, yn enwedig ar gyfer plant meithrin

Engbreiffiau

- *“Nid wyf am roi fy mhlant bach ar fws gyda phlant hŷn pan nad oes darpariaeth ddigonol o ran diogelu.”*
- *“A fydddech chi'n rhoi plentyn 4 oed ar fws gyda phlant stwrllyd?”*
- *“Mae cludo plant ifanc o dref i dref yn fater diogelu arwyddocaol.”*

Ymateb y Cyngor

Mae'r pryderon a fynegwyd o ran trefniadau cludiant ar gyfer dysgwyr iau yn ddealladwy ac mae sicrhau bod cludiant yn ddiogel, addas ac yn addas i oedran ac anghenion disgyblion yn rhywbeth sydd yn hynod o bwysig i'r Cyngor.

Wrth ystyried cludiant, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod amseroedd teithio ar gyfer plant cynradd yn rhesymol. Mae'r canllawiau presennol yn nodi na ddylai siwrneiau gymryd mwy na 45 munud bob ffordd ar gyfer disgyblion cynradd, ac mae llawer o'r dewisiadau a ystyriwyd o dan y trothwy yma.

Nid yw'r Cyngor fel rheol yn cludo plant bach ochr yn ochr â phlant sydd cryn dipyn yn hŷn. Pan fo angen gwneud trefniadau i gludo plant o wahanol oedrannau, bydd mesurau priodol yn cael eu hystyried, yn cynnwys trefnu i gymhorthydd teithio fod yn bresennol. Wrth benderfynu a yw trefniadau cludiant yn addas mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried oedran y dysgwyr a natur y daith. Ni fyddai trefniadau teithio yn cael eu hystyried yn addas os ystyrir hwy i fod yn annïogel, yn achosi straen diangen i ddysgwyr neu'n arwain at amseroedd teithio afresymol.

Dylid nodi mai dim ond cludiant o'r cartref i'r ysgol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol arferol y mae'r awdurdod lleol yn gorfod ei ddarparu. Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, rhieni a gofalmwr sy'n gyfrifol am drefnu cludiant os oes angen casglu plentyn o'r ysgol oherwydd ei fod yn sâl, mewn argyfwng neu i fynychu digwyddiadau a gweithgareddau ysgol ychwanegol.

Nid oes yn rhaid i'r Cyngor ddarparu cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer plant meithrin, gan fod addysg feithrin yn anstatudol. Byddai unrhyw drefniant cludiant yn destun cynllunio ac asesiad risg manwl i sicrhau ei fod yn briodol, diogel ac yn diwallu anghenion y dysgwyr.

Thema 2: Hunaniaeth Gymunedol, Perthyn, Effaith Ddiwylliannol ac Ysbrydol

Pwyntiau Allweddol

- Ystyrir ysgolion yn rhan bwysig o gymunedau
- Pryder y bydd cau ysgolion yn gwanhau cydlyniant cymunedol a synnwyr o berthyn
- Pwysigrwydd ysgolion fel canolfannau cymunedol
- Effaith ar fywyd y plwyf, hunaniaeth leol a datblygiad ysbrydol
- Anghysondeb â Strategaeth Perthyn y Cyngor

Engbreiffiau

- *“Dylai ysgolion cynradd fod yn lleol, maen nhw’n rhan o’r gymuned.”*
- *“Mae ysgolion yn ffurfio rhan o wneuthuriad cymuned. Maen nhw wedi’u plethu â bywyd bob dydd.”*
- *“Mae Ysgol Dewi Sant yn fwy nag ysgol, mae’n gonglfaen i’r gymuned.”*

Ymateb y Cyngor

Mae’r Cyngor yn cydnabod bod ysgolion yn aml iawn yn galon i’w cymunedau ac yn deall y pryderon a all godi pan fydd newidiadau i ddarpariaeth addysg leol yn cael eu cynnig. Gall ysgolion chwarae rhan bwysig wrth ddod â phobl at ei gilydd, cefnogi gweithgareddau cymunedol, cyfrannu at hunaniaeth leol ac, mewn lleoliadau ffydd, cefnogi bywyd plwyfol ac ysbrydol.

Fodd bynnag, tra bod y manteision cymunedol ehangach hyn yn werthfawr, prif bwrpas ysgol yw darparu’r addysg orau posibl i blant a phobl ifanc. Wrth ystyried y cynnig hwn, cyfrifoldeb y Cyngor yw sicrhau bod gan ddysgwyr fynediad at ddarpariaeth addysg gynaliadwy ac o ansawdd uchel sy’n diwallu eu hanghenion rŵan ac i’r dyfodol.

Derbynnir bod presenoldeb ysgol yn gallu cyfrannu at gydlyniant cymunedol a synnwyr o berthyn. Fodd bynnag, nid yw’r nodweddion hyn yn dibynnu ar ysgol yn unig a gallent barhau i gael eu meithrin drwy eglwysi, grwpiau cymunedol, sefydliadau lleol a chyfleusterau cymunedol eraill a rennir.

Nod y cynnig yw diogelu addysg Gatholig yn Sir y Fflint ar gyfer blynyddoedd i ddod, er bod hynny drwy dynnu dwy ysgol gynradd o gymunedau pwysig a gwella’r cynnig yn ardal y Fflint.

Buddion addysg y cynnig yw’r brif ystyriaeth. Fodd bynnag, mae’r Cyngor a’r Esgobaeth yn cydnabod pwysigrwydd cadw hunaniaeth gymunedol, perthnasoedd plwyfol, traddodiadau a rennir a synnwyr o berthyn. Os ydym yn bwrw ymlaen gyda’r cynnig, bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut bydd hanes, gwerthoedd a hunaniaeth yr ysgolion presennol yn cael eu hadlewyrchu a’u diogelu yng nghymuned yr ysgol newydd.

Thema 3: Hyfywedd yr Ysgolion Presennol a'r Cynnig i Gau Ysgolion

Pwyntiau Allweddol

- Cyfeirir at Ysgol Dewi Sant fel ysgol lwyddiannus, hyfyw a chynaliadwy
- Cwestiynau am resymeg y cau
- Pryderon bod yr ansicrwydd yn tanseilio hyfywedd yr ysgol
- Ystyrir bod yr ysgolion presennol yn werthfawr ac yn effeithiol
- Y canfyddiad bod cau'r ysgolion yn ddiangen

Engbreiffiau o Sylwadau

- *“Mae Ysgol Dewi Sant yn ysgol hyfyw sy'n gweithredu o fewn ei chyllideb ac sydd wedi'i disgrifio fel ysgol dda mewn asesuadau Estyn.”*
- *“Nid wyf wedi gweld unrhyw wybodaeth i awgrymu nad yw Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant yn ariannol hyfyw.”*
- *“Mae'r ansicrwydd hir yma yn Ysgol Dewi Sant wedi achosi i rai rhieni symud eu plant.”*

Ymateb y Cyngor

Mae'r Cyngor yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r sylwadau cadarnhaol am Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant. Cydnabyddir bod yr ysgol yn werthfawr iawn i'r gymuned, wedi'i chydabod fel ysgol dda gan Estyn ac yn parhau i ddarparu profiadau addysg cadarnhaol i'w disgyblion.

Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn seiliedig ar bryderon ynghylch ansawdd addysg yn Ysgol Dewi Sant. Yn hytrach, mae'n rhan o adolygiad ehangach o addysg Gatholig ar draws Sir y Fflint, gan ystyried ffactorau fel nifer y disgyblion, lleoedd gwag, addasrwydd yr adeiladau a chynaliadwyedd hirdymor y ddarpariaeth.

Er bod Ysgol Dewi Sant yn ysgol lwyddiannus, mae'r ysgol wedi gweld gostyngiad yn nifer y disgyblion yn ystod y blynyddoedd diwethaf – o 80 o ddisgyblion yn 2020 i 60 o ddisgyblion yn 2025. Rhagwelir y gall y niferoedd ostwng ymhellach i oddeutu 45 o ddisgyblion erbyn 2030. Yn ystod yr un cyfnod, rhagwelir y bydd nifer y lleoedd gwag yn dal yn uchel. Mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried y tueddiadau hirdymor hyn wrth gynllunio dyfodol ysgolion.

Mae'r Cyngor hefyd yn nodi, er bod yr adeilad mewn cyflwr boddhaol, bod ei addasrwydd yn wael, gan amlygu cyfyngiadau o ran pa mor effeithiol y gall yr adeilad gefnogi gofynion addysgu a dysgu modern.

Mae pryderon hefyd wedi'u mynegi ynghylch yr ansicrwydd yn sgil y cynnig hwn a'i effaith ar hyder rheini a nifer y disgyblion. Mae'r Cyngor yn deall y pryderon hyn ac yn cydnabod yr effaith y gall yr ansicrwydd ei chael ar gymunedau ysgol. Fodd bynnag, mae rhagolygon disgyblion a gwybodaeth ddemograffig yn parhau i amlygu heriau o ran y galw a'r cynaliadwyedd yn y dyfodol – pethau y mae'n rhaid i'r Cyngor eu hystyried yn ofalus.

Mae'r cynnig yn ceisio darparu dyfodol cynaliadwy a hirdymor ar gyfer addysg Gatholig yn Sir y Fflint drwy leihau lleoedd gwag, gwella amgylcheddau dysgu a chreu ysgol 3-18 oed i addysgu plant o'r dosbarth meithrin i'r chweched dosbarth.

Tra bod y Cyngor yn cydnabod cryfderau a'r gefnogaeth gref ar gyfer Ysgol Dewi Sant, credai y dylid ystyried y cynnig yng nghyd-destun diogelu addysg Gatholig gynaliadwy ac o ansawdd uchel yn Sir y Fflint ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Thema 4: Addysg Gatholig, Dewis Rhieni a'r Cysylltiad rhwng y Plwyf a'r Ysgol

Pwyntiau Allweddol

- Awch i gadw addysg Gatholig yn y cymunedau
- Llai o ddewis i rieni os yw ysgolion yn cau
- Pwysigrwydd perthnasoedd rhwng yr ysgol a'r eglwys
- Y gwerth a roddir ar addysg ffydd gan deuluoedd Catholig ac eraill
- Pryderon ynghylch colli darpariaeth Gatholig leol

Engbrefftau o Sylwadau

- *“Byddai cau'r ysgol hefyd yn golygu colli'r unig ysgol Gatholig yn yr Wyddgrug.”*
- *“Mae angen diogelu addysg Gatholig yn Sir y Fflint i'r de o'r A55.”*
- *“Mae agosrwydd a'r cysylltiad rhwng Ysgol Dewi Sant ac Eglwys Dewi Sant yn fuddiol i'r ysgol a'r plwyf fel ei gilydd.”*

Ymateb y Cyngor

Mae'r Cyngor a'r Esgobaeth yn cydnabod pwysigrwydd addysg Gatholig, cysylltiadau plwyfol a chynnal presenoldeb Catholig o fewn cymunedau. Datblygwyd y cynnig i ddiogelu dyfodol a chynaliadwydd addysg Gatholig yn Sir y Fflint, yn hytrach na'i lleihau.

Er y gall ysgolion Sant Anthony a Dewi Sant gau, byddai addysg Gatholig yn parhau i fod ar gael ar draws y sir, yn cynnwys yn yr ysgol Gatholig 3-18 oed newydd yn y Fflint a'r ysgolion Catholig eraill yn y sir. Bwriad y cynnig yw darparu model addysg Gatholig sy'n mynd i'r afael â derbyniadau is, lleoedd gwag a heriau sylweddol yn ymwneud â chynnal a chadw adeiladau.

Byddai'r ysgol pob oed newydd yn cryfhau addysg Gatholig drwy ddod â disgyblion 3-18 oed at ei gilydd mewn un gymuned ddysgu Gatholig, wedi'u cefnogi gan arweinyddiaeth, trefniadau llywodraethu, datblygiadau cwricwlwm a gofal bugeiliol ar y cyd. Disgwylir i'r model hwn wella parhad dysgu a gwneud pethau'n haws i ddisgyblion cynradd sy'n pontio i addysg uwchradd, gan gynnal yr ethos Catholig ar hyd taith ddysgu'r plentyn.

Yn ogystal, byddai'r disgyblion yn elwa ar adeilad ysgol newydd, modern, carbon sero net sydd wedi'i gynllunio i gefnogi addysgu a dysgu o'r radd flaenaf a darparu cyfleusterau nad oes modd eu cael yn yr hen adeiladau ysgol presennol. Felly ystyrir bod y cynnig yn fuddsoddiad hirdymor mewn addysg Gatholig, gan sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn parhau i gael mynediad at addysg ffydd o safon uchel yn y sir.

Mae'r Cyngor yn cydnabod gwerth y berthynas agos rhwng ysgolion a'u plwyfi ac yn bwriadu parhau i weithio gyda'r Esgobaeth a chymunedau Catholig i sicrhau bod y cysylltiadau pwysig hyn yn dal yn ganolog i addysg Gatholig.

Thema 5: Goblygiadau Ariannol, Cyllido, Perchnogaeth Asedau a Gwerth am Arian

Pwyntiau Allweddol

- Pryderon ynghylch fforddiadwyedd a threfniadau ariannu'r prosiect
- Ansicrwydd ynghylch cyfraniadau Llywodraeth Cymru a'r Esgobaeth
- Pryderon ynghylch y costau hirdymor i'r trethdalwr
- Cwestiynau am berchnogaeth asedau a ariennir yn gyhoeddus
- Cred y byddai buddsoddi llai o arian yn yr ysgolion presennol yn fwy o werth am arian

Engbreiffiau o Sylwadau

- *“Sut mae'r Esgobaeth yn ariannu'r cyfraniad o 15%?”*
- *“Mae'r amcangyfrif o £55 miliwn yn seiliedig ar gynllun amlinellol yn unig.”*
- *“Rwyf yn gwrthwynebu defnyddio fy nheth y cyngor i ariannu unrhyw ddatblygiad ysgol a fydd wedyn yn cael ei roi i'r Eglwys Gatholig.”*

Ymateb y Cyngor

Mae cyfraniad Llywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn 65% ar gyfer ysgolion, 75% ar gyfer Unedau Cyfeirio Disgyblion a darpariaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn 81% ar gyfer Modelau Buddsoddi Cydfuddiannol ac yn 85% ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr.

Yn seiliedig ar gost amcangyfrifedig y cynllun ar y cam dichonolrwydd cychwynnol, cyfanswm cost moderneiddio'r stad ysgolion Catholig yw £55 miliwn. Cyfraniad y Cyngor tuag at y cynllun fyddai £8.250 miliwn, sy'n cynrychioli'r 15% sy'n weddill o gyfanswm cost y cynllun, a byddai hynny'n cael ei ariannu drwy fenthycia darbodus.

Mae'r gyfradd gyfrannu hon yn cynrychioli'r trefniant ariannu mwyaf manteisiol i'r Cyngor. Mae'r goblygiadau ariannu yn fwy ffafriol o lawer na'r rheiny sy'n gysylltiedig â chynlluniau buddsoddi cyfalaf eraill, gan leihau gofyniad benthyca'r Cyngor a'r dyledion cysylltiedig yn ystod oes y prosiect. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r buddsoddiad cyfalaf yn cael ei ariannu'n allanol, gan leihau'r risg ariannol a diogelu gallu'r Cyngor i fuddsoddi mewn meysydd blaenoriaeth eraill.

Yn ystod y blynyddoedd ariannol diwethaf, mae cyfartaledd o £0.489 miliwn y flwyddyn wedi'i fuddsoddi mewn atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw ar draws yr ysgolion, gydag oddeutu dau draean o'r gwariant hwn wedi bod ar yr ysgol uwchradd Gatholig.

Yn yr hirdymor, rhagwelir y byddai codi adeilad ysgol modern ac effeithlon yn arwain at rywfaint o arbedion gweithredol yn sgil cael gwared ar bedwar adeilad ysgol. Byddai'r arbedion yn dod o gostau cynnal a chadw is, effeithlonrwydd ynni a chostau cylch bywyd is o gymharu â chynnal a chadw llawer o gyfleusterau hyn – gan ganiatáu mwy o arian ar gyfer dysgu a gwasanaethau cefnogi.

Byddai'r adeilad newydd yn cyrraedd safonau amgylcheddol modern ac yn cyfrannu at nodau lleihau carbon Sir y Fflint. Byddai'r ysgol newydd hefyd yn addas i'r dyfodol; wedi'i dylunio gyda'r hyblygrwydd i addasu i anghenion addysgol newidiol a thueddiadau poblogaeth dros amser. Fodd bynnag, mae costau eraill, fel cyfraddau busnes, yn debygol o godi, gyda'r posibilrwydd o wrthbwysu hynny drwy gau'r safleoedd eraill.

I ddarparu eglurhad pellach o'r costau benthyg refeniw amcangyfrifedig sy'n gysylltiedig â'r cynllun, mae'r costau rhagamcanol dros gyfnod o 50 mlynedd, sy'n cynnwys taliadau llog a'r Isafswm Darpariaeth Refeniw, wedi'u cynnwys yn Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor. Mae hyn yn adlewyrchu'r broses gyfrifyddu safonol ar gyfer gwariant cyfalaf a ariennir drwy

fenthycha ac yn sicrhau bod cost oes gyfan y buddsoddiad wedi'i gynllunio mewn ffordd dryloyw o fewn fframwaith ariannol y Cyngor.

Bydd y costau benthycha yn cynyddu'n raddol dros gyfnod o bum mlynedd wrth i'r prosiect ddatblygu drwy'r camau dichonolrwydd, dylunio ac adeiladu. Mae'r pwysau ariannol yma eisoes wedi'u cynnwys yn amcanestyniadau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Amcangyfrifir y bydd y costau cyllido blynyddol cyfartalog dros y cyfnod benthycha o 50 mlynedd yn £0.639 miliwn.

Mae'r Cyngor wedi gwneud defnydd cyfyngedig o fenthycha darbodus yn ystod y blynyddoedd diweddar ac mae ei gymhareb costau cyllido net a ffrwd refeniw net wedi aros, a bydd yn parhau i aros, yn weddol sefydlog.

Ni fydd unrhyw ddull amgen sy'n cynnwys buddsoddiadau bach mewn ysgolion unigol yn gymwys i gael cyllid gan Lywodraeth Cymru. O ganlyniad, byddai'n rhaid i'r Cyngor ariannu holl gostau unrhyw waith o'r fath drwy fenthycha darbodus, gan gynyddu baich ariannol yr awdurdod.

Nid yw cynnal a chadw'r holl ysgolion fel y maent, ac ar safleoedd ar wahân, yn ariannol gynaliadwy. Yn fwy na hynny, ni fyddai gwneud buddsoddiadau sylweddol i safleoedd unigol yn bodloni meini prawf achosion busnes Llywodraeth Cymru, sy'n golygu nad yw hyn yn opsiwn hyfwrw ar gyfer datblygiad addysgol a chymunedol hirdymor.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol weithio gydag ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr i ddatblygu a chyflawni prosiectau buddsoddi mewn ysgolion. Mae'r egwyddor hon yn ystyriaeth allweddol o fewn y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

Mae'r gwariant cyfalaf arfaethedig yn cefnogi cyflawni cyfrifoldebau addysg statudol y Cyngor drwy ddarparu cyfleusterau addysg sy'n gwasanaethu'r gymuned.

Er na fydd yr ased sy'n deillio o hynny yn eiddo i'r Cyngor, bydd yn creu ac yn cynnal buddiant llesionol parhaus drwy'r ddarpariaeth barhaus o wasanaethau addysg statudol.

Dyma rai o'r buddion uniongyrchol ac anuniongyrchol sydd wedi'u dyfynnu mewn adroddiadau cyfalaf.

Buddion Uniongyrchol:

- Gwneud y mwyaf o'r buddsoddiad mewn ysgolion a geir gan Lywodraeth Cymru sydd, yn yr achos hwn, yn 85% o gyfanswm y costau yn seiliedig ar gyfradd gyfrannu'r llywodraeth
- Cyfle strategol i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y system addysg
- Parhau i wella amgylcheddau dysgu, sy'n cyfrannu at godi safonau addysgu
- Lleihau costau cynnal a chodi cynyddol adeiladau ysgol anghynaliadwy a chefnogi isadeiledd. Cael gwared ar adeiladau ysgol sydd wedi hen fynd heibio eu disgwyliad oes
- Lleihau'r costau sefydlog sy'n gysylltiedig ag adeiladau, gan adael i'r arweinwyr fuddsoddi'n uniongyrchol yn y dysgu
- Ardaloedd awyr agored gwell i gefnogi'r holl weithgareddau cwricwlwm, yn cynnwys ystafell ddosbarth awyr agored ac ardal 'ysgol goedwig'
- Lleihau nifer y lleoedd gwag sy'n gwyro adnoddau oddi wrth y ddarpariaeth rheng flaen i'r disgyblion. Bydd hyn yn galluogi ailddosbarthu'r cyllid yn fwy teg ar draws y rhwydwaith cyfan o ysgolion, er budd holl ddisgyblion y sir
- Mynd i'r afael ag ysgolion gyda nifer o leoedd gwag, sydd yn ariannol anghynaliadwy ac yn gallu gwanhau profiadau addysg. Mae ysgolion bach yn creu heriau i athrawon sy'n gorfod addysgu dosbarthiadau gydag oedranau gwahanol, gan wneud dysgu gwahaniaethol priodol i ddiwallu anghenion disgyblion unigol yn anoddach
- Gwelliannau ynni effeithlon yn cyfrannu at gostau rhedeg is ac yn cefnogi strategaeth lleihau carbon y Cyngor

Buddion Anuniongyrchol:

- Cyfrannu at wella canlyniadau dysgwyr drwy sicrhau bod adeiladau ysgol yn effeithiol wrth greu'r amodau i staff gyflawni eu rolau yn effeithiol, sydd wedyn yn helpu dysgwyr i lwyddo
- Cyd-fynd â Strategaeth Moderneiddio Ysgolion y Cyngor i sicrhau bod ysgolion yn addas i'r diben
- Stad ysgol fwy diogel oherwydd dulliau adeiladu gwell a chefnogaeth dechnegol e.e. TCC, larymau, systemau cyfathrebu
- Uwchraddio darpariaeth TGCh a galluogi dulliau newydd o ddarparu'r cwricwlwm
- Darparu capasiti priodol ar draws y rhwydwaith ysgolion
- Buddion economaidd drwy wario ar gontractwyr ac is-gontractwyr lleol
- Cyfleoedd gwerth cymdeithasol e.e. profiad gwaith, prentisiaethau, buddion cymunedol, profiadau addysgol ar gyfer dysgwyr
- Cefnogi nodau carbon sero net y Cyngor drwy adeiladu asedau sydd wedi'u dylunio a'u codi i wrthsefyll effaith newid hinsawdd

Thema 6: Anghenion Dysgu Ychwanegol, AAAA a Chynhwysiant

Pwyntiau Allweddol

- Mae ysgolion llai yn cael eu gweld yn ysgolion gwell ar gyfer rhai dysgwyr
- Pryderon ynghylch symud i ysgol fwy
- Cyfeiriadau at ddarpariaethau sy'n gyfeillgar i awtistiaeth a niwroamrywiaeth
- Effaith bosibl ar les, hyder a chyrhaeddiad
- Pryderon y bydd dysgwyr diamddiffyn yn cael eu heffeithio mewn ffordd anghymesur

Engbrefftau o Sylwadau

- *“Mae'r effaith ar blant AAAA yn debygol o fod yn niweidiol gan fod ysgol fach yn fwy addas i'w hanghenion.”*
- *“Mae lleoliad bach, cyfarwydd yn ddelfrydol ar gyfer llawer o blant.”*
- *“Byddai ei roi mewn amgylchedd mawr yn cael effaith andwyol arno.”*

Ymateb y Cyngor

Mynegwyd llawer o bryderon ynghylch yr effaith bosibl ar ddysgwyr gydag ADY, yn cynnwys dysgwyr awtistig a niwroamrywiol. Amlygodd nifer o ymatebwyr bwysigrwydd amgylchedd cyfarwydd, perthnasodd sefydledig a lleoliadau ysgol bach i gefnogi plant a phobl ifanc diamddiffyn.

Mae ysgolion Sir y Fflint yn amrywio o ran maint. Mae tystiolaeth o arolygiadau Estyn o'n hysgolion mwy yn dangos y gellir ffurfio a chynnal perthnasodd cryf, a bod gan staff ddealltwriaeth dda o anghenion plant unigol ac yn gallu eu diwallu yn effeithiol yn y lleoliadau hyn. Mae hyn yn dangos nad yw plant ag ADY mewn ysgolion mwy o reidrwydd dan anfantais o gymharu â phlant mewn ysgolion llai, gyda llawer o blant sy'n mynd i leoliadau mwy o faint yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yng nghymuned yr ysgol ac yn gwneud cynnydd da.

Dengys tystiolaeth hefyd nad maint ysgol sy'n cyfrannu fwyaf at ganlyniadau cadarnhaol plant ag ADY ond, yn hytrach, ansawdd yr ymarfer cynhwysol, arbenigedd, arweinyddiaeth effeithiol a chefnogaeth wedi'i chydlyn. Mae darpariaeth effeithiol yn cynnwys nodi'r angen yn gynnar, meithrin partneriaeth gref gyda theuluoedd, defnyddio dulliau cyson i gefnogi a chreu diwylliant sy'n hyrwyddo cynhwysiant a pherthyn.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall pontio fod yn heriol iawn i rai dysgwyr ac mae'n deall y pryderon a fynegwyd ynghylch effaith symud i ysgol fwy ar les, hyder a chyrhaeddiad. Mae'r materion wedi'u hystyried yn ofalus drwy gydol y broses ymgynghori a'r Asesiad o'r Effaith ar ADY.

Mae'n ddyletswydd statudol ar bob ysgol i adnabod a chefnogi dysgwyr gydag ADY, a bydd cynlluniau datblygu unigol yn parhau i gael eu gweithredu drwy gydol y broses bontio. Ni fydd unrhyw ddysgwr gydag ADY yn symud heb y gynllunio a threfniadau cefnogi priodol.

Mae'r ysgol Gatholig 3-18 oed arfaethedig yn y Fflint yn gyfle i gryfhau'r gefnogaeth drwy un llwybr addysg wedi'i gydlyn. Mae'r buddion posibl yn cynnwys prosesau gwell i olrhain cynnydd dysgwyr, nodi'r angen yn gynt, mwy o gysondeb yn y gefnogaeth rhwng y camau cynradd ac uwchradd a gwell cyfathrebu gyda theuluoedd. Byddai un strwythur sefydliadol hefyd yn cefnogi dulliau mwy cyson o ran cynllunio a darparu ymyraethau.

Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch a fydd y ddarpariaeth arfaethedig yn addas i blant niwroamrywiol. Cydnabyddir, ar gyfer rhai plant gydag anawsterau synhwyrdd, y gall amgylchedd mwy fod yn heriol e.e. coridorau prysurach ac ati. Bydd angen ystyried trefniadau amgen i leihau'r effaith ar y plant hynny, fel darparu mynediad at ardaloedd tawel neu ganiatáu iddynt symud rhwng gwersi cyn neu ar ôl eraill.

Bydd yr ysgol newydd arfaethedig yn darparu cyfleusterau modern a phwrpasol sydd â'r potensial i gefnogi amrywiaeth eang o anghenion. Mae hyn yn cynnwys gofodau pwrpasol ar gyfer addysgu ac ymyraethau, ardaloedd tawel, gwelliannau o ran hygyrchedd ac ardaloedd dysgu sydd wedi'u dylunio i hyrwyddo lles a chynhwysiant. Gall mynediad at amrywiaeth ehangach o arbenigedd staff a chefnogaeth arbenigol hefyd gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr gydag anghenion mwy cymhleth.

Gall symud i amgylchedd gwahanol fod yn heriol i blant ac oedolion. Mae pob ysgol yn brofiadol iawn o ran cefnogi plant i bontio e.e. o'r dosbarth meithrin i'r dosbarth derbyn neu o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Rhan allweddol o'r gwaith hwn yw adnabod y rheiny sydd angen profiad pontio gyda mwy o gefnogaeth, a gweithredu hynny. Mae gan y Cyngor brofiad helaeth o weithio gydag ysgolion fel rhan o'r gwaith moderneiddio ysgolion. Mae prosiectau diweddar wedi cynnwys symud dwy ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd ar un campws. Roedd gan bob ysgol ddarpariaeth arbenigol ar gyfer plant ag ADY, a gefnogwyd i bontio i'r amgylchedd ysgol newydd. Roedd hyn yn ganlyniad i gynllunio ar y cyd rhwng yr ysgolion a'r Cyngor, a sicrhodd fod anghenion unigol yn eglur ac yn cael sylw.

Cydnabyddir y bydd trefniadau pontio llwyddiannus yn hanfodol. Os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynnig, bydd cynlluniau pontio personol yn cael eu datblygu mewn partneriaeth â'r dysgwyr, teuluoedd, ysgolion a'r gweithwyr proffesiynol perthnasol. Gall y trefniadau hyn gynnwys ymweliadau ychwanegol â'r safle, cyfle i gwrdd â'r staff ymlaen llaw, cefnogaeth weledol, straeon cymdeithasol a rhaglenni pontio fesul cam, ble bo'n briodol.

Felly nid a yw darpariaeth yn cael ei chynnig mewn ysgol fach neu ysgol fawr yw'r ystyriaeth allweddol, ond a yw anghenion unigol yn ffocws canolog drwy gydol y broses. Drwy gynllunio trefniadau pontio yn ofalus, cefnogaeth barhaus a chydweithio cryf rhwng ysgolion a theuluoedd, mae gan y cynigion y potensial i gynnal y gefnogaeth bersonol a ddarperir yn ogystal â gwella canlyniadau addysg, cymdeithasol a lles dysgwyr gydag ADY.

Mae'r Cyngor yn sylweddoli y gall newid fod yn heriol i lawer o blant, yn cynnwys y rheiny gydag ADY a'u teuluoedd. Cydnabyddir pwysigrwydd gweithio gydag ysgolion a chymunedau i ddarparu cefnogaeth briodol, yn enwedig o ran y disgyblion mwyaf diamddiffyn, i sicrhau bod hyn yn cael ei gynllunio ac yn briodol ar gyfer anghenion unigol. Rhagwelir y bydd y gefnogaeth hon, ochr yn ochr â'r buddion addysgol a amlinellir yn y cynnig, yn arwain at brofiadau dysgu cadarnhaol i blant, a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar eu hyder, eu lles a'u cyrhaeddiad.

Thema 7: Capasiti Ysgol, Demograffeg a'r Galw yn y Dyfodol

Pwyntiau Allweddol

- Twf tai yn yr Wyddgrug
- Cwestiynau am amcanestyniadau disgyblion
- Pryderon ynghylch y galw am leoedd yn y dyfodol
- Pwysau posibl ar ysgolion cyfagos
- Pryderon bod y cynnig yn amcangyfrif y twf yn y boblogaeth yn y dyfodol yn rhy isel

Engbrefftau o Sylwadau

- *“A yw canran twf poblogaeth yr Wyddgrug o 7% wedi'i hystyried?”*
- *“Mae twf disgwyledig yn y boblogaeth gyda 320 a mwy o dai yn cael eu codi o fewn pellter cerdded i Ysgol Dewi Sant.”*
- *“Does dim digon o wybodaeth o ran sut mae'r awdurdod lleol wedi amcangyfrif nifer y disgyblion yn y dyfodol.”*

Ymateb y Cyngor

Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon a godwyd mewn perthynas â thwf tai, amcanestyniadau disgyblion a'r galw yn y dyfodol am leoedd mewn ysgolion Catholig, yn enwedig yn yr Wyddgrug. Mae'r cynnig wedi'i hysbysu gan ddadansoddiad demograffeg, data amcanestyniadau disgyblion a thrwy ystyried dyraniadau'r Cynllun Datblygu Lleol a datblygiadau tai hysbys. Ble nodwyd twf cynlluniedig mewn tai, yn cynnwys safleoedd yn ardal yr Wyddgrug, mae hynny wedi'i gydnabod yn y broses asesu. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn dangos fod gan Ysgol Dewi Sant nifer fawr o leoedd gwag, gyda'r amcanestyniadau yn dangos y byddai'r lleoedd gwag yn parhau er y twf posibl yn y dyfodol.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn egluro bod amcanestyniadau nifer y disgyblion yn y dyfodol yn ystyried amrywiaeth o ffactorau ac yn cael eu hadolygu yn erbyn data derbyniadau go iawn. Nodir hefyd, tra bod datblygiadau tai yn gallu denu disgyblion newydd, mae dewisiadau rhieni yn golygu nad yw'n bosibl dweud gyda sicrwydd pa ysgolion y bydd y disgyblion hynny yn mynd iddynt. Felly mae'r Cyngor yn ystyried ei fod yn briodol seilio ei asesiad ar y dystiolaeth orau sydd ar gael.

Cydnabyddir y pryderon ynghylch y pwysau ar ysgolion cyfagos. Mae'r ddogfen ymgynghori yn dweud bod digon o leoedd ar gael o fewn y rhwydwaith Catholig ehangach ar gyfer y disgyblion yr effeithir arnynt gan y cynnig ac nad yw'r ysgolion sy'n debygol o dderbyn dysgwyr ychwanegol yn mynd i weld effaith negyddol sylweddol.

Yn ogystal, os yw rhieni yn dewis ysgol arall yng nghymuned yr Wyddgrug, mae yna ddigon o leoedd ar gael yn ysgolion cynradd eraill yr ardal. Dyma'r achos hefyd ar gyfer disgyblion Saltney, pa un ai fydd y cynnig ar gyfer y gymuned honno yn cael ei gweithredu ai peidio.

Er nad oes modd darogan yr union dwf yn y boblogaeth, mae'r Cyngor yn fodlon bod y cynnig yn darparu dull cynaliadwy ar gyfer addysg Gatholig, gan fynd i'r afael â lleoedd gwag a chadw digon o leoedd i gwrdd â'r galw disgwyledig yn y dyfodol.



Thema 8: Model Ysgol 3-18 Oed

Pwyntiau Allweddol

- Pryderon ynghylch addysgu plant bach ochr yn ochr â phlant yn eu harddegau
- Cwestiynau am addasrwydd y model
- Pryderon diogelu o fewn campws a rennir
- Cyfeiriadau at heriau mewn ysgolion tebyg
- Awgrymiadau y byddai ysgolion ar wahân ar un safle yn well

Engbreiffiau o Sylwadau

- *“Rwyf yn gwrthwynebu cael plant bach yn yr un ysgol â phlant yn eu harddegau.”*
- *“Mae ar ysgolion cynradd angen bod ar wahân i ysgolion uwchradd.”*
- *“Ai'r ysgolion pob oed hyn, sy'n addysgu plant 3 i 18 oed ar yr un safle, yw'r ateb?”*

Ymateb y Cyngor

Mynegodd nifer o bobl bryderon ynghylch addasrwydd ysgol 3-18 oed, yn enwedig o ran diogelu, plant bach yn dod i gysylltiad â phlant hŷn, ac a fyddai plant cynradd yn colli allan ar fuddion profiad ysgol gynradd mewn ysgol wahanol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon hyn ac yn sylweddoli bod llwyddiant ysgol pob oed yn dibynnu ar gynllunio, arweinyddiaeth a gweithrediad effeithiol. Fodd bynnag, dengys tystiolaeth o ymchwil addysgol a chanfyddiadau arolygiadau ysgol fod pontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd yn gallu bod yn heriol i lawer o ddysgwyr. Mae gwahaniaethau yn y ffordd y darperir y cwricwlwm, disgwyliadau, dulliau asesu a threfniadau bugeiliol yn gallu amharu ar ddysgu ac effeithio ar les ar adeg allweddol o addysg plentyn.

Un o brif nodau'r ysgol 3-18 arfaethedig yw creu llwybr addysg di-dor o'r blynyddoedd cynnar i addysg ôl-16. Byddai hynny'n cefnogi dilyniant cryfach yn y cwricwlwm, yn gwella prosesau olrhain cynnydd disgyblion, yn caniatáu mwy o gydweithio rhwng staff a chysondeb o ran dulliau addysgu a disgwyliadau ar draws pob cam addysg. Mae'r cynnig hefyd yn ceisio lleihau'r amhariadau sydd yn aml yn gysylltiedig â symud o ysgol gynradd ar wahân i ysgol uwchradd.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi nifer o fanteision sy'n gysylltiedig ag ysgol o'r fath, yn cynnwys “profiad ysgol pob oed” (sy'n gallu helpu yn ystod cyfnodau pontio), datblygu cwricwlwm a rennir, trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu ar y cyd, a chyfleoedd gwell i staff gydweithio a datblygu'n broffesiynol.

Rydym yn llwyr ddeall y pryderon ynghylch diogelu. Byddai'r ysgol arfaethedig yn gweithredu dan un fframwaith diogelu, gyda pholisïau, gweithdrefnau a disgwyliadau cyson ar draws bob grŵp oed. Mae'r ddogfen ymgynghori yn dweud y byddai dull a rennir ar gyfer diogelu, ymddygiad a datblygiad personol yn cefnogi perthnasoedd cadarnhaol ac amgylchedd dysgu diogel a chynhwysol. Byddai gwelliannau i systemau bugeiliol, trefniadau cefnogi dysgwyr a darpariaeth o ran lles hefyd yn helpu i sicrhau bod disgyblion yn derbyn gofal a chefnogaeth addas i'w hoedran.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r model arfaethedig yn seiliedig ar blant bach a disgyblion hŷn yn dysgu gyda'i gilydd. Bydd yr ysgol newydd yn cael ei dylunio gyda darpariaeth gynradd ac uwchradd wahanol, yn cynnwys gofodau a chyfleusterau priodol i'r oeddrannau. Mae'r ddogfen ymgynghori yn cadarnhau y bydd gan yr elfennau cynradd ac uwchradd eu gofodau addysgu a chefnogi eu hunain, tra bydd y cynllun terfynol yn cael ei ddatblygu i ddarparu amgylchedd dysgu diogel, hygyrch a chefnogol.

Bydd gweithredu'r cynnig fesul cam yn lleihau'r amhariadau ymhellach. Fis Medi 2027 bydd yr ysgol newydd yn gweithredu ar draws y safleoedd presennol, gan ganiatáu i'r disgyblion aros

ble maen nhw tra bod y trefniadau arwain, llywodraethu, cwricwlwm a bugeiliol ar y cyd yn cael eu sefydlu. Mae'r ddogfen ymgynghori yn egluro y bydd y trefniadau pontio hyn yn cael eu rheoli'n ofalus i sicrhau parhad dysgu, lles a chefnogaeth fugeiliol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod rhai budd-ddeiliaid yn credu y byddai ysgolion cynradd ac uwchradd ar wahân ar safle a rennir yn well. Fodd bynnag, mae'r enghreifftiau gorau o ysgolion pob oed yn rhai sy'n gweithredu dan drefniadau integredig yn hytrach nag ysgolion ar wahân sy'n rhannu'r un safle. Tra bod dilyniant cwricwlwm, diogelu, lles a chefnogaeth i ddygwyr yn cael eu cynllunio a'u cydlynu'n ofalus, mae gan fodel 3-18 oed y potensial i ddarparu mwy o ddilyniant, prosesau pontio haws a chanlyniadau hirdymor gwell i ddisgyblion.

Mae'r Cyngor yn credu bod yr ysgol 3-18 oed arfaethedig yn gyfle i gyfuno cryfderau addysg gynradd ac uwchradd mewn un daith addysgol, gan ddarparu mesurau diogelu priodol, darpariaeth sy'n addas i'r oedrannau amrywiol a chefnogaeth fugeiliol gref ar gyfer dysgwyr ar bob cam o'u haddysg.

Thema 9: Safonau Addysg, Arweinyddiaeth, Trefniadau Llywodraethu a Gwella Ysgolion

Pwyntiau Allweddol

- Risgiau i safonau addysg yn ystod y cyfnod pontio
- Pryderon ynghylch gallu arweinwyr mewn ysgol 3-18 oed
- Cwestiynau am y trefniadau llywodraethu
- Angen cadw ysgolion sy'n perfformio'n dda
- Pryderon ynghylch amhariadau i welliannau ysgol

Engbreiffiau o Sylwadau

- *“Mae ysgol o'r maint yma, gyda phlant 3 i 18 oed, yn sefydliad eithriadol o gymhleth i'w arwain.”*
- *“Gall hyn danseilio'r amcan allweddol o welliant parhaus mewn addysgu a chyrhaeddiad.”*
- *“Mae arweinyddiaeth yn gallu bod dan straen weithiau.”*

Ymateb y Cyngor

Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon ynghylch cynnal safonau addysgol yn ystod cyfnod o newid. Fodd bynnag, mae'r cynnig wedi'i ddatblygu gyda'r nod o gynnal a chryfhau'r ddarpariaeth addysg yn ysgolion Catholig y sir.

Safonau addysg yn ystod y cyfnod pontio

Byddai'r ysgol 3-18 oed newydd yn gweithredu ar draws y safleoedd presennol i ddechrau, gan ganiatáu i'r rhan fwyaf o'r disgyblion aros yn eu hysgolion presennol hyd nes bydd yr adeilad newydd yn agor. Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi y bydd y trefniadau pontio yn cael eu cynllunio'n ofalus i sicrhau parhad mewn dysgu, lles a chefnogaeth fugeiliol, ac nad yw'r Cyngor yn rhagweld unrhyw effaith andwyol ar safonau addysg. Bydd monitro parhaus yn amlygu ac yn mynd i'r afael ag unrhyw fater sy'n codi.

Capasiti arwain ysgol 3-18 oed

Tra bod ysgol pob oed yn sefydliad mawr, disgwylir i'r cynnig gryfhau trefniadau arwain a gwella'r ysgol. Mae'r ddogfen yn amlygu y byddai strwythur arwain sy'n fwy cydlynol yn cefnogi cynllunio strategol effeithiol, yn cryfhau prosesau gwella ysgol, yn manteisio ar arbenigedd staff ac adnoddau yn well ac yn arwain at ganlyniadau gwell i ddysgwyr.

Trefniadau llywodraethu

Bydd corff llywodraethu dros dro yn cael ei sefydlu yn unol â rheoliadau Llywodraeth Cymru i oruchwylio'r gwaith o greu'r ysgol newydd. Byddai'r corff hwn yn gweithio gyda'r Cyngor a'r Esgobaeth i roi trefniadau arwain, staffio, polisïau a threfniadau gweithredol yn eu lle cyn sefydlu corff llywodraethu parhaol. Bydd y trefniadau llywodraethu yn darparu craffu, atebolrwydd a goruchwyliaeth effeithiol o'r blaenoriaethau gwella ysgol.

Cynnal ysgolion sy'n perfformio'n dda

Nid yw'r cynnig yn seiliedig ar bryderon ynghylch ansawdd yr addysg a ddarperir. Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi bod ysgolion Sant Anthony, Dewi Sant a'r Santes Fair yn cael eu cydnabod gan Estyn fel ysgolion da, a bod y cynnig yn rhan o strategaeth ehangach i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor, arweinyddiaeth gref a safonau uchel ar draws addysg Gatholig.

Gwella ysgolion a gwelliant parhaus

Disgwylir i'r cynnig gefnogi yn hytrach na llesteirio gwelliannau ysgol drwy ddysgu proffesiynol a rennir, prosesau hunanwerthuso cyson, prosesau gwell i olrhain cynnydd dysgwyr a chydweithio



agosach rhwng staff ar draws y cyfnodau oed gwahanol. Bwriad y trefniadau hyn yw cryfhau'r capasiti ar gyfer gwelliant parhaus a chodi safonau dros amser.

Ystyrir bod y cynnig yn darparu arweinyddiaeth gryfach, trefniadau llywodraethu cadarn, cydweithio gwell rhwng staff a thaith addysg ddi-dor ar gyfer dysgwyr, gan sicrhau bod safonau addysg yn cael eu cynnal a'u cryfhau drwy gydol y broses pontio.

Thema 10: Y Broses Ymgynghori, Ymgysylltu â Budd-Ddeiliaid a Hyder yn y Broses o Wneud Penderfyniad

Pwyntiau Allweddol

- Cred nad yw canlyniadau'r ymgynghoriad blaenorol wedi'u hadlewyrchu
- Pryder bod penderfyniadau wedi'u gwneud yn barod
- Sawl cyfeiriad at y gwrthwynebiad blaenorol
- Pryderon ynghylch ymgysylltu â chyrrff llywodraethu a budd-ddeiliaid
- Diffyg hyder yn y broses ymgynghori

Enghreifftiau o Sylwadau

- *"Nid yw 95% o'r bobl a ymatebodd eisiau i hyn ddigwydd."*
- *"Mae pobl eisoes wedi pleidleisio'n glir, a does dim ots gennych chi am hynny."*
- *"Cafodd y cynigion eu datblygu heb ymgysylltu'n iawn â'r Corff Llywodraethu na'r ysgol."*

Ymateb y Cyngor

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gan fudd-ddeiliaid farn wahanol am y cynnig, a'r broses ymgynghori ei hun. Yn gyntaf, fel yr eglurwyd yn y ddogfen ymgynghori ddiwygiedig, bu'n rhaid stopio'r ymgynghoriad cyntaf oherwydd cwestiynau cyfreithiol; ac er mwyn derbyn y cyngor cyfreithiol priodol nid oedd y Cyngor yn gallu gwneud y penderfyniad terfynol o fewn amserlenni statudol gofynnol Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Ers stopio'r broses wreiddiol, mae trydydd fersiwn o'r Cod wedi'i gyhoeddi (Mawrth 2026) sy'n golygu bod yn rhaid i unrhyw ymgynghoriad newydd gadw at y cod diwygiedig. Gan fod hwn yn ymgynghoriad newydd, ac yn unol â'r cod newydd, nid oedd modd cario barn y budd-ddeiliaid yn yr ymgynghoriad cyntaf 'drosodd'. Roedd yr ymgynghoriad newydd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r budd-ddeiliaid, a chyfle teg i gymryd rhan a gwneud sylwadau.

Hefyd, mae'r ddogfen ymgynghori newydd yn pwysleisio'r ffaith nad yw'r Cyngor wedi gwneud unrhyw benderfyniad ymlaen llaw. Mae'n rhaid i bob cam o'r broses statudol gael ei ystyried yn ffurfiol a'i benderfynu gan Gabinet y Cyngor. Bydd y Cabinet yn derbyn y wybodaeth berthnasol ar bob cam, gan gynnwys yr adborth a'r dystiolaeth a gesglir yn ystod y rhan honno o'r broses.

Pwrpas yr ymgynghoriad newydd oedd casglu ac ystyried barn pob parti â diddordeb cyn gwneud penderfyniad. Mae'r adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn ac wedi'i gyflwyno i'r aelodau etholedig fel rhan o'r broses o wneud penderfyniad. Bydd y penderfyniad yn cael ei wneud ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol yn iawn, yn cynnwys yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Drwy gydol yr ymgynghoriad mae budd-ddeiliaid allweddol wedi cael digon o gyfleoedd i ymgysylltu i sicrhau bod eu safbwyntiau'n cael eu cofnodi. Cynhaliwyd digwyddiadau penodol i ddisgyblion i egluro'r cynnig a chasglu eu barn am y syniad a beth ellir ei wneud yn lle.

Gwahoddwyd staff y pedair ysgol a fydd yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol i sesiynau ar wahân, gan ddarparu lle diogel iddynt drafod pethau'n agored a gofyn cwestiynau i'r Cyngor a'r Esgobaeth.

Cynhaliwyd cyfarfodydd ar wahân hefyd gyda llywodraethwyr y pedair ysgol i drafod y cynigion a chynhaliwyd cyfarfod ar y cyd gyda llywodraethwyr y ddwy ysgol gynradd Gatholig arall.

Roedd budd-ddeiliaid allweddol eraill, yn cynnwys rhieni, gwarcheidwaid, gofalcwyr, aelodau o'r gymuned, undebau staff a gwleidyddion, yn gallu defnyddio'r ffurflen ymateb (ar-lein neu ar bapur) i fynegi eu barn / anfon llythyr at y Cyngor drwy'r post neu i'r cyfeiriad e-bost pwrpasol,



mynd â'u ffurflen ymateb i unrhyw un o swyddfeydd y Cyngor, a gallu gofyn am ragor o wybodaeth neu wneud sylw cyffredinol.

Mae'r ymgynghoriad wedi'i gynnal yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2026, gyda'r nod o ddarparu gwybodaeth glir a chyfleoedd ystyrlon i fudd-ddeiliaid fynegi eu barn. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod y broses yn dryloyw, hygyrch a theg, a bod pob ymateb sydd wedi dod i law yn cael ei ystyried yn ofalus cyn gwneud penderfyniad.

Thema 11: Cydraddoldeb, Cynhwysiant, y Gymraeg ac Effaith Drawsffiniol

Pwyntiau Allweddol

- Pryderon ynghylch mynediad at addysg Gatholig drwy gyfrwng y Gymraeg
- Disgyblion yn symud i ysgolion yn Lloegr
- Cwestiynau ynghylch derbyniadau ar sail ffydd a chydraddoldeb
- Pryderon ynghylch mynediad teg at addysg
- Dadl o ran buddsoddiad cyhoeddus mewn addysg ffydd

Enghreifftiau o Sylwadau

- *“Byddai cau Ysgol Dewi Sant yn golygu na fydd ysgol Gatholig Gymraeg yn rhan hon o Sir y Fflint.”*
- *“Bydd y rhan fwyaf o drigolion Saltney yn cael eu gorfodi i fynd â'u plant i ysgolion yn Lloegr er mwyn cael addysg Gatholig.”*
- *“Mae defnyddio bedydd i benderfynu ar dderbyniadau yn ddadleuol, hyd yn oed pan nad oes digon o le i bawb sy'n gwneud cais; mae defnyddio hynny ar gyfer unrhyw bwrpas arall yn enghraifft o wahaniaethu.”*

Ymateb y Cyngor

Pryder: Mynediad at addysg Gatholig drwy gyfrwng y Gymraeg

Cydnabyddir y bydd y cynnig i gau Ysgol Sant Anthony yn Saltney ac Ysgol Dewi Sant yn yr Wyddgrug yn golygu colli addysg Gatholig Gymraeg yn y cymunedau hynny. Fodd bynnag, credir y bydd y diwygiadau arfaethedig yn darparu cynnig Catholig cryfach a chynaliadwy a fydd yn cynnal neu'n gwella'r ddarpariaeth Gatholig Gymraeg a geir ar hyn o bryd, er bod hynny o fewn ardal fwy crynodedig. Mae cadw'r ysgolion Catholig yn Shotton a Threfffynnon yn ehangu'r mynediad i leoedd eraill yn y sir.

Pryder: Plant yn symud i ysgolion Saesneg yn Lloegr

Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd rhai teuluoedd sy'n byw wrth ymyl y ffin, yn enwedig yn ardal Saltney, yn ystyried ysgolion yn Lloegr. Fodd bynnag, bydd amrywiaeth o ddewisiadau addysg yn dal ar gael yn Sir y Fflint, yn cynnwys ysgolion Catholig yn Shotton, Treffynnon a'r ysgol Gatholig 3-18 oed newydd yn y Fflint. Nod y cynnig yw diogelu addysg Gatholig y sir drwy ddod ag adnoddau at ei gilydd ar gyfer un ddarpariaeth gryfach a mwy hyfyw.

Pryder: Derbyniadau ar sail ffydd a chydraddoldeb

Mae'n rhaid i dderbyniadau ysgolion Catholig gwirfoddol a gynorthwyr gadw at God Derbyniadau Ysgolion a deddfwriaeth gydraddoldeb. Os oes mwy o blant na lleoedd, efallai y bydd meini prawf ar sail ffydd yn cael eu defnyddio yn unol â'r trefniadau derbyn a gymeradwywyd. Mae'r trefniadau hyn yn gyfreithlon ac yn cael eu defnyddio'n aml gan ysgolion ffydd ar draws Cymru. Nid yw'r cynnig yn cyflwyno meini prawf derbyn newydd a bydd yn rhaid i'r ysgol newydd gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaethau perthnasol a'r gofynion derbyn.

Pryder: Mynediad teg at addysg

Daeth yr Asesiad o'r Effaith Integredig i'r casgliad y byddai'r cynnig yn darparu mynediad at gwricwlwm ehangach, cyfleusterau gwell a chyfleoedd addysg gwell mewn amgylchedd dysgu modern. Byddai'r ysgol newydd yn gwbl hygyrch a chynhwysol, gyda chyfleusterau gwell ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol ac anabledau. Er y bydd ar rai teuluoedd angen teithio'n bellach i gael addysg Gatholig, byddai'r meini prawf cludiant yn parhau i gael eu hasesu yn unol â pholisi'r Cyngor.

Pryder: Buddsoddiad cyhoeddus mewn addysg ffydd



Mae'r cynnig yn ceisio diogelu addysg Gatholig yn Sir y Fflint ar gyfer y tymor hir, drwy godi ysgol 3-18 oed gynaliadwy newydd yn lle sawl ysgol gyda niferoedd isel a hen adeiladau. Mae'r buddsoddiad yn rhan o'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a'r bwriad yw darparu amgylchedd dysgu modern, effeithlon ac o'r safon uchaf ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae'r cynnig wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth a gyda chefnogaeth yr Esgobaeth Gatholig.

Thema 12: Buddion y Cynnig (Ymatebion Cefnogol)

Pwyntiau Allweddol

- Cefnogaeth ar gyfer cyfleusterau addysg newydd a modern
- Cyfle i wella amgylcheddau addysgu
- Cynaliadwyedd ariannol a llai o lefydd gwag
- Hyfywedd hirdymor addysg Gatholig
- Buddion posibl model ysgol pob oed

Engbreiffiau o Sylwadau

- *“Mae ysgol newydd a phwrpasol yn fwy cynaliadwy ac yn ddatrysiaid sy’n edrych i’r dyfodol.”*
- *“Bydd ysgol pob oed yn helpu gyda phrosesau pontio i’r ysgol uwchradd.”*
- *“Nid yw safleoedd llai gydag ychydig iawn ar y gofrestr yn dangos gwerth am arian.”*

Ymateb y Cyngor

Mae’r adborth a gafwyd yn amlygu sawl mantais bwysig sy’n gysylltiedig ag agor ysgol newydd ar gyfer dysgwyr 3-18 oed. Mae’r Cyngor yn cydnabod ac yn croesawu’r sylwadau cadarnhaol hyn ac yn deall y cyfleoedd y gall ysgol pob oed bwrpasol eu darparu i ddisgyblion, teuluoedd a’r gymuned ehangach.

Amlygodd yr ymatebwyr fanteision ysgol newydd a phwrpasol i ddysgwyr, a bod cyfleusterau addysg modern yn gallu creu amgylchedd dysgu o ansawdd uchel sy’n cefnogi addysgu a dysgu, yn gwella hygyrchedd a lles ac yn darparu cyfleusterau sy’n diwallu anghenion y genhedlaeth bresennol o ddysgwyr a chenedlaethau’r dyfodol.

Roedd y sylwadau hefyd yn nodi bod y cynnig yn cynrychioli dull mwy cynaliadwy ac arloesol ar gyfer addysg, gydag adeiladau ysgol modern ar y cyfan yn fwy effeithlon i’w rhedeg a’u cynnal a’u cadw – sy’n golygu bod modd defnyddio adnoddau i gefnogi canlyniadau addysg yn hytrach na chynnal a chadw hen gyfleusterau.


Amlygwyd rhesymau ariannol y cynnig hefyd, gydag ymatebion yn cyfeirio at bwysigrwydd cynaliadwyedd ariannol a lleihau nifer y llefydd gwag er mwyn gwneud y defnydd gorau o’r adnoddau sydd ar gael. Gall model ysgol sy’n fwy cynaliadwy helpu i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio’n effeithiol i gefnogi dysgwyr, staff, adnoddau addysg a gwelliannau ehangach.

Roedd sylwadau eraill yn amlygu mwy o gydweithio i ddarparu’r cwriclewm a datblygu staff, prosesau pontio haws i ddisgyblion a fydd yn gwella lles a bod hwn yn ddull posibl i ddiogelu addysg Gatholig yn Sir y Fflint.

C.3. Effaith ar y Gymraeg

Roedd y ffurflen ymateb yn cynnwys rhan yn gofyn i unigolion ddarparu eu safbwyntiau ar effaith bosibl y cynnig ar y Gymraeg.

Yr ymateb mwyaf poblogaidd i bob un o'r 5 cwestiwn oedd y byddai'r cynnig yn cael effaith 'niwtral' ar y Gymraeg.



C.3.i. Themâu yn ymwneud â'r Gymraeg

Gofynnwyd i bobl roi eu sylwadau mewn blwch sylwadau a gofynnwyd iddynt sut y gellir cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol. Cafodd yr ymatebion eu trefnu i themâu, a rhoddir sylw iddynt yn y tablau isod.

Dylid nodi bod rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut mae'r Cyngor yn bwriadu lliniaru rhai o'r materion a godwyd yn yr ymgynghoriad, a sut rydym ni'n gobeithio gwella cyfleoedd o ran y Gymraeg ar gael yr Asesiad o Effaith ar y Gymraeg ynghyd â'r ddogfen ymgynghori.

Thema 1: Symud Dros y Ffin a Cholli Cyfleoedd Cymraeg

Pwyntiau Allweddol

- Gall cau ysgolion wrth ymyl y ffin â Lloegr annog teuluoedd i edrych ar ysgolion yn Lloegr
- Ni fydd plant sy'n mynd i ysgolion yn Lloegr yn derbyn addysg Gymraeg
- Llai o blant yn cael eu haddysgu o fewn system addysg Cymru
- Pryder bod y cynnig yn mynd yn groes i uchelgais iaith Llywodraeth Cymru
- Pryder penodol ynghylch yr effaith ar Saltney ac Ysgol Sant Anthony

Engbreiffiau o Sylwadau

- *“Bydd cau ysgol ar y ffin â Lloegr yn arwain at blant yn mynd i ysgolion yn Lloegr.”*
- *“Bydd plant yn symud i Loegr ar gyfer eu haddysg, felly sut byddan nhw'n dysgu Cymraeg heb sôn am siarad Cymraeg?”*
- *“Bydd hyn fwy na thebyg yn arwain at blant yn symud i Gaer ac yn dilyn cwricwlwm Lloegr.”*

Ymateb y Cyngor

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod addysg dros y ffin eisoes yn nodwedd hir-sefydlog o'r ardal a bod teuluoedd yn ymarfer eu hawl i ddewis ysgolion dros y ffin am amrywiaeth o resymau. Tra bod penderfyniadau rhieni yn anrhagweladwy, mae'r cynnig yn canolbwyntio ar wella cynaliadwyedd hirdymor addysg Gatholig yn Sir y Fflint.

Mae'r holl ysgolion dan sylw yn ysgolion Catholig cyfrwng Saesneg, lle addysgir Cymraeg fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru. Byddai'r disgyblion a fydd yn mynd i'r ysgol pob oed arfaethedig yn y Fflint yn parhau i ddysgu Cymraeg a phrofi diwylliant Cymru yn unol â'r cwricwlwm.

Mae Sir y Fflint yn parhau'n ymroddedig i uchelgais Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru ac i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Nod Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) y Cyngor yw cynyddu sgiliau Cymraeg pob dysgwr, yn cynnwys y rhai sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg.

Mae'r CSCA yn cynnwys camau i gynyddu cyfranogiad mewn addysg cyfrwng Cymraeg, gwella cyrhaeddiad Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, a chefnogi dysgwyr sy'n trosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg drwy raglenni trochi.

Tra bod lleoliad Saltney ger y ffin â Lloegr yn cael ei gydnabod, mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn nodi bod y defnydd o'r Gymraeg yn ardal honno eisoes yn gymharol isel, o'i gymharu â rhannau eraill o Sir y Fflint. Bydd y Cyngor yn parhau i hyrwyddo dysgu Cymraeg a chyfleoedd addysg cyfrwng Cymraeg i deuluoedd lleol beth bynnag yw canlyniad y cynnig hwn.

Ni ddisgwylir i'r cynnig leihau'r cyfleoedd dysgu Cymraeg. Bydd y Cyngor yn parhau i gadw at ei ymrwymadau yn y CSCA, hyrwyddo'r Gymraeg a buddsoddi mewn addysg Gymraeg ar draws y sir.

Thema 2: Effaith ar y Gymraeg, Diwylliant a Hunaniaeth Gymunedol

Pwyntiau Allweddol

- Mae'r Gymraeg yn cael ei gweld fel rhywbeth sydd â chysylltiad agos â'r gymuned a hunaniaeth ddiwylliannol
- Pryder bod symud plant oddi wrth eu cymunedau yn gwanhau cysylltiadau diwylliannol
- Ystyrir bod ysgolion yn ganolfannau pwysig ar gyfer diwylliant a hunaniaeth Gymreig
- Effaith ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned
- Pryderon ynghylch cynaliadwyedd hirdymor cymunedau Cymraeg

Engbrefftau o Sylwadau

- *“Bydd y cynnig hwn yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg a diwylliant lleol, drwy rwygo plant o’u cymunedau.”*
- *“Mae symud plant i ysgol y tu allan i’w cymunedau yn gwanhau’r cysylltiad hwnnw ac yn lleihau eu synnwyr o berthyn.”*
- *“Mae ar blant angen defnyddio eu Cymraeg yn eu cymunedau i wreiddio eu defnydd ohoni.”*

Ymateb y Cyngor

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gyrraedd nodau'r CSCA, sy'n ceisio cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg mewn ysgolion a chymunedau, a chreu sir ddwyieithog. Mae'r ymrwymadau hyn yn parhau, waeth sut fydd y ddarpariaeth addysg Gatholig yn cael ei hailstrwythuro.

Tra bod rhai ymatebwyr yn pryderu ynghylch cysylltiadau cymunedol yn cael eu gwanhau wrth i blant fynd i ysgol arall, byddai'r disgyblion yn dal yn byw yn eu cymunedau ac yn cael cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau cymunedol, gwasanaethau lleol a metrau Cymraeg eraill. Mae'r Cyngor, drwy'r CSCA a'r Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg wedi ymrwymo i estyn y Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth ac i fywyd cymunedol.

Byddai'r ysgol newydd 3-18 oed yn darparu parhad mewn addysg a chyfleoedd i'r dysgwyr ar draws bob grŵp oedran ar hyd un llwybr addysg. Ni ragwelir y bydd y cynnig yn cael effaith negyddol sylweddol ar gyfleoedd i ddysgu Cymraeg nac ar allu'r Cyngor i gefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg.

Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro effaith y cynnig ar y Gymraeg a bydd yn ystyried yr adborth a gafwyd yn ystod y broses ymgynghori yn rhan o Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.

Thema 3: Mae Ysgolion Presennol Eisoedd yn Cefnogi'r Gymraeg yn Effeithiol

Pwyntiau Allweddol

- Mae'r ysgolion presennol eisoedd yn darparu addysg Gymraeg a chyfleodd diwylliannol
- Ystyrir bod hyrwyddo'r Gymraeg yn rhywbeth sydd wedi'i wreiddio'n llwyddiannus yn yr ysgolion presennol
- Pryder y byddai cau ysgolion yn amharu ar y ddarpariaeth Gymraeg sefydledig
- Dylid diogelu mentrau Cymraeg
- Cwestiynau am y buddion Cymraeg ychwanegol a ddaw yn sgil y cynnig

Enghreifftiau o Sylwadau

- *"Gall ysgolion addysgu Cymraeg yr un mor hawdd mewn ysgol lai."*
- *"Yn hanesyddol, mae gan Ysgol Dewi Sant enw da am gefnogi siarad neu ddysgu Cymraeg."*
- *"Sut fydd ysgol fwy yn cael mwy o effaith gadarnhaol ar y Gymraeg?"*

Ymateb y Cyngor

Mae'r ysgolion presennol eisoedd yn hyrwyddo dysgu Cymraeg ac yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ymgysylltu â'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. Mae'r gwaith a wneir yn Ysgol Sant Anthony, Dewi Sant, y Santes Fair a Sant Richard Gwyn yn hynod werthfawr ac yn cael ei gydnabod.

Byddai ysgol Gatholig 3-18 oed yn parhau i ddarparu'r Gymraeg yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru a'r CSCA, sy'n ceisio gwella sgiliau Cymraeg a chynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol ac ym mywyd bob dydd.

Tra bod ymatebwyr wedi amlygu bod ysgolion llai yn gallu addysgu'r Gymraeg yn llwyddiannus, mae'r Cyngor yn credu y byddai ysgol pob oed fwy yn darparu mwy o gyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg drwy gydweithio rhwng camau oedran, rhannu arbenigedd, gweithgareddau cyfoethogi ehangach a thaith Gymraeg gyson o 3 i 18 oed.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn nodi y dylai'r cynnig gefnogi nodau Cymraeg 2050 a CSCA Sir y Fflint, yn cynnwys cynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd gwahanol a gwella canlyniadau dysgwyr Cymraeg ail iaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo'r Gymraeg ymhob cynnig i foderneiddio ysgolion, a bydd yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod mentrau Cymraeg, gweithgareddau diwylliannol a chyfleoedd dysgu yn cael eu cynnal a'u datblygu.

Er bod dysgu Cymraeg eisoedd yn gryfder yn yr ysgolion presennol, disgwylir i'r cynnig gynnal y manteision hynny a darparu cyfleoedd i gryfhau profiadau Cymraeg ymhellach, a chynnig dilyniant i ddysgwyr drwy'r ysgol pob oed.

Thema 4: Cyfleoedd Cymraeg y tu hwnt i'r Ystafell Ddosbarth

Pwyntiau Allweddol

- Mae datblygu'r Gymraeg yn dibynnu ar gymryd rhan yn y gymuned ac mewn gweithgareddau cymdeithasol
- Pryderon y bydd cynnydd mewn amser teithio yn lleihau'r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol
- Llai yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, clybiau a digwyddiadau diwylliannol ar ôl ysgol
- Pwysigrwydd ffrindiau, grwpiau cyfoed a chymuned i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg
- Pryderon y gall amseroedd teithio hirach leihau'r cyfleoedd i ymgysylltu â'r Gymraeg y tu allan i wersi ffurfiol

Engbreiffiau o Sylwadau

- *“Mae plentyn sy'n treulio dros awr y dydd ar fws yn blentyn sy'n colli'r cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau lleol ar ôl ysgol.”*
- *“Nid yw plant yn gallu siarad Cymraeg gyda'u ffrindiau os nad oes ganddyn nhw amser rhydd ar ôl cyrraedd yr ysgol neu ar ôl mynd adref.”*
- *“Ni fydd gan blant yr un cyfle cymunedol i barhau â chyfeillgarwch oherwydd daearyddiaeth cartrefi'r disgyblion.”*

Ymateb y Cyngor

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth, yn cynnwys drwy ffrindiau, clybiau, gweithgareddau a digwyddiadau cymunedol, yn bwysig i fagu hyder a chynyddu'r defnydd o Gymraeg bob dydd. Mae hyn wedi'i ystyried fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac yn cyd-fynd â nodau Cymraeg 2050 a CSCA Sir y Fflint, sy'n ceisio cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

Mae'r ysgolion a effeithir arnynt yn ysgolion cyfrwng Saesneg, a bydd yr addysg Gymraeg yn parhau dan y trefniadau newydd. Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i wella canlyniadau Cymraeg dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, a chreu mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd gwahanol.

Mae'r CSCA hefyd yn rhoi pwyslais cryf ar weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion, sefydliadau cymunedol a gwasanaethau i hyrwyddo dwyieithrwydd, mewn addysg a lleoliadau cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys cefnogi dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i wersi a'u hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a chymunedol.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn ddogfen fyw, a bydd yr adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar deithio, defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, gweithgareddau ar ôl ysgol a chynnal grwpiau cyfeillgarwch, yn cael ei ystyried fel rhan o asesiad o effaith gyffredinol y cynnig ar gyfleoedd Cymraeg.

Thema 5: Twf Strategol Addysg Gymraeg a Nod Cymraeg 2050

Pwyntiau Allweddol

- Pryderon ynghylch diffyg cydymffurfio â CSCA Sir y Fflint
- Cwestiynau ynglŷn â sut mae'r cynnig yn cefnogi uchelgais Cymraeg 2050
- Pryderon ynghylch yr effaith ar dwf addysg cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol
- Cwestiynau am ddefnydd y ddemograffeg presennol a thystiolaeth o'r iaith
- Ceisiadau am asesiad cryfach o oblygiadau ieithyddol strategol y cynnig

Engbrefftau o Sylwadau

- *"Dylai'r Cyngor hefyd ddangos sut mae'r cynnig yn cefnogi twf mewn addysg Gymraeg."*
- *"Sut mae'r Cyngor wedi asesu effaith buddsoddiad sylweddol mewn ysgol cyfrwng Saesneg ar ei allu i gyrraedd ei darged ei hun o 15% o siaradwyr Cymraeg erbyn 2030?"*
- *"Aseswch y cynnig yn erbyn targedau'r CSCA a Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2025-2030."*

Ymateb y Cyngor

Mae goblygiadau'r cynnig o ran y Gymraeg wedi'u hystyried yn ofalus fel rhan o Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2026. Mae'r asesiad yn ystyried effaith y cynnig ar y Gymraeg, Cymraeg 2050 a CSCA Sir y Fflint.

Mae'r ysgolion y mae'r cynnig hwn yn ymwneud â nhw yn ysgolion cyfrwng Saesneg. Nid yw'r cynnig yn lleihau darpariaeth Gymraeg, yn cau unrhyw ysgol Gymraeg nac yn cael gwared ar fynediad at addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn Sir y Fflint.

Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i gyflawni amcanion Cymraeg 2050 a CSCA 2022-2032, sy'n ceisio cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ac ehangu addysg Gymraeg ar draws y sir.

Mae'r cynnig wedi'i asesu yn erbyn blaenoriaethau lleol o ran y Gymraeg a thystiolaeth ddemograffig. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn cyfeirio at ddata Cyfrifiad 2021, tueddiadau lleol, targed y Cyngor i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i 15% a darpariaeth Gymraeg Sir y Fflint.

Mae asesiad y Cyngor yn cydnabod bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir y Fflint yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ond yn nodi hefyd bod y nifer sy'n dewis addysg Gymraeg yn cynyddu ac, yn ôl pob disgwyl, yn mynd i barhau i gynyddu.

Mae buddsoddiad sylweddol mewn addysg Gymraeg yn parhau ochr yn ochr â'r cynnig hwn. Mae buddsoddiadau diweddar yn cynnwys Ysgol Croes Atti yn y Fflint, gwelliannau yn Ysgol Glanrafon yn yr Wyddgrug, cefnogaeth ar gyfer y rhaglen drochi a chynlluniau ar gyfer darpariaeth Gymraeg ychwanegol yn ardal Bwcle/Mynydd Isa. Mae dros £20 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn addysg Gymraeg ers 2020.

Gan fod y cynigion yn ymwneud ag ysgolion cyfrwng Saesneg, nid yw'r Cyngor yn credu y byddai'n cael effaith negyddol sylweddol ar gyflawni'r CSCA nac amcanion Cymraeg 2050. Bydd y Cyngor yn parhau i hyrwyddo dysgu Cymraeg ac addysg Gymraeg drwy ei ymrwymadau yn y CSCA a'i raglen fuddsoddi.

Thema 6: Cyfleoedd i Gryfhau Darpariaeth Gymraeg (Thema Gefnogol)

Pwyntiau Allweddol

- Mae rhai ymatebwyr yn credu y gall y cynnig wella darpariaeth Gymraeg os cynllunnir pethau'n iawn
- Cyfle i wreiddio dull cyson ar gyfer dysgu Cymraeg o 3 i 18 oed
- Mwy o gydweithio rhwng y camau cynradd ac uwchradd
- Cyfle i greu amgylchedd dwyieithog cryfach
- Potensial i wella cyfleoedd dysgu cymunedol a hyrwyddo'r Gymraeg

Engbreiffiau o Sylwadau

- *“Mae ysgol newydd bwrpasol yn gyfle i greu amgylcheddau dysgu lle mae'r Gymraeg yn fwy gweladwy.”*
- *“Byddai'r Gymraeg yn cael ei gwreiddio yn yr ysgol a gellir gweithio ar fentrau ar y cyd o'r camau cynradd hyd at y chweched dosbarth.”*
- *“Byddai ysgol newydd yn gallu cydlynu a chanolbwyntio ar fedrau Cymraeg, a gwneud gwell defnydd o adnoddau prin.”*

Ymateb y Cyngor

Rydym yn croesawu barn ymatebwyr sy'n credu y gall y cynnig ddarparu cyfleoedd i gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg o fewn addysg Gatholig.

Byddai'r ysgol Gatholig 3-18 arfaethedig yn gyfle i'r camau cynradd ac uwchradd gydweithio'n agosach, gan gefnogi dull mwy cyson ar gyfer dysgu'r iaith wrth i'r disgyblion fynd drwy'r ysgol. Mae hyn yn cyd-fynd â CSCA Sir y Fflint, sy'n ceisio gwella canlyniadau Cymraeg dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd gwahanol.

Byddai amgylchedd ysgol newydd yn darparu mwy o gyfleoedd i hyrwyddo gwelededd a defnydd y Gymraeg ar draws y campws. Drwy ddylunio amgylcheddau dysgu addas i'r dyfodol, gall arwyddion, adnoddau a chyfathrebu dwyieithog helpu i gefnogi datblygiad y Gymraeg ac atgyfnerthu'r egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn nodi cyfleoedd i'r ysgol newydd gyfrannu'n gadarnhaol at uchelgeisiau Cymraeg lleol a chenedlaethol, yn cynnwys Cymraeg 2050 a CSCA Sir y Fflint. Byddai'r cynnig yn galluogi staff i gydweithio ar draws y camau oedran i gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg a rhannu arbenigedd, gan helpu dysgwyr i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl o ran y Gymraeg fel ail iaith.

Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i hyrwyddo dwyieithrwydd a chynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr, teuluoedd a'r gymuned ehangach ymgysylltu â'r Gymraeg. Wrth i'r cynnig ddatblygu, bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut y gellir annog y defnydd o'r Gymraeg ym mywyd yr ysgol a gweithgareddau cymunedol ehangach.

Nid yw'r cynnig yn cyfyngu ar fynediad at addysg Gymraeg. Mae ysgolion Cymraeg ar gael yn yr Wyddgrug a'r Fflint, ac mae'r Cyngor yn parhau i fuddsoddi'n sylweddol mewn addysg Gymraeg ar draws y sir i gefnogi'r amcanion hirdymor o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a chreu Sir y Fflint sy'n fwy dwyieithog.

Os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynnig, bydd y Cyngor yn gweithio gydag arweinwyr ysgol i ganfod cyfleoedd i gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg a chefnogi'r CSCA. Fe all hyn gynnwys gwella gwelededd y Gymraeg yn yr ysgol, cydweithio ar draws y camau oedran i gynllunio cwricwlwm ddysgwyr Cymraeg, mwy o gyfleoedd cyfoethogi i ddysgwyr a mwy o gyfleoedd datblygu proffesiynol ar gyfer staff.

Bydd y cynnydd yn erbyn y rhain yn cael ei fonitro drwy drefniadau gwella ysgol a gweithgareddau CSCA.

C.4. Ffurflenni Ymateb Plant a Phobl Ifanc

C.4.i. Ffurflenni Ymateb

Cafwyd 41 copi papur gan blant a phobl ifanc, bob un o Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant, yr Wyddgrug.

O'r 41 ymateb roedd 31 yn disgrifio'r cynnig yn un "drwg", gyda'r 10 arall yn nodi eu bod yn "ansicr".

Dyma rai o'r rhesymau dros ystyried y cynnig yn un drwg:

- "Mae ein hysgol yn ddigon mawr, does arna i ddim eisiau symud ysgol"
- "Mae gennym ni ysgol dda yn barod"
- "Dydw i ddim yn gwybod"
- "Ni fydd plant ag anghenion arbennig yn hoffi llefydd mawr"
- "Mae'n ysgol fach, felly mae hi'n iawn i chi os dydych chi ddim yn hoffi llefydd mawr"

Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys:

- "Gweld mwy o bobl yn dod i'n hysgol ni"
- "Ie, cadw'r ysgol! Plis!!"
- "Cadw'r ysgol!"
- "Go iawn, mi fyswn i'n gadael i bethau fod"
- "Peidio ag adeiladu ysgol fawr, a chadw'r ysgol"

C.4.ii. Digwyddiadau Disgyblion

Yn ystod sesiynau unigol ym mhob un o'r chwe ysgol Gatholig, gwahoddwyd grwpiau o ddisgyblion i fynegi eu barn drwy ateb y cwestiynau canlynol:

- Beth ydych chi'n ei hoffi am eich ysgol?
- Beth fydddech chi'n ei newid?
- Beth allai fod yn dda am ysgol newydd sbon?
- Beth allai fod yn anodd neu'n achosi pryder?
- A oes unrhyw beth arall rydych chi'n meddwl y dylai ddigwydd?

Cyflwynwyd y cynnig hefyd i Fforwm Ieuenctid Sir y Fflint a gofynnwyd iddynt fynegi eu barn ar y cynnig ac ystyried y manteision a'r anfanteision i'r dysgwyr a'r gymuned.

Mae detholiad o'r ymatebion a gafwyd ymhob sesiwn ar gael yn yr atodiadau (E.2).

C.4.iii. Negeseuon allweddol gan blant a phobl ifanc

Mae'r Cyngor yn rhoi pwys mawr ar y farn a fynegwyd gan blant a phobl ifanc yn ystod y broses ymgynghori.

Ar draws yr holl weithgareddau ymgynghori, soniodd y disgyblion am nifer o fanteision posibl sy'n gysylltiedig â'r cynnig, yn cynnwys mynediad i gyfleusterau modern, amgylcheddau dysgu mwy, adnoddau gwell, mwy o gyfleoedd ar gyfer chwaraeon, mynediad at gyfleusterau addysgu arbenigol a'r cyfle i wneud ffrindiau newydd.

Mae plant a phobl ifanc hefyd wedi mynegi pryderon ynghylch trefniadau teithio, symud oddi wrth ffrindiau ac athrawon cyfarwydd, addasu i amgylchedd ysgol mawr, bwllo posibl, diogelu a chadw hunaniaeth yr ysgolion presennol.

Thema amlwg ar draws y sesiynau oedd y pwysigrwydd yr oedd y disgyblion yn ei roi ar gymuned eu hysgol, perthnasoedd ac amgylcheddau dysgu cyfarwydd.

Mae'r Cyngor a'r Esgobaeth wedi ystyried y safbwyntiau hyn yn ofalus wrth asesu'r cynnig ac yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau lles, diogelwch, darpariaeth briodol i oedran a threfniadau pontio effeithiol drwy gydol unrhyw broses weithredu yn y dyfodol.

C.4.iv. Adroddiad Ymgynghoriad Plant a Phobl Ifanc

Bydd crynodeb addas i blant a phobl ifanc o'r adroddiad ymgynghori hwn yn cael ei gynhyrchu a'i rannu gyda'r plant a'r bobl ifanc a gymerodd ran yn y broses ymgynghori. Bydd y crynodeb yn egluro canlyniadau'r ymgynghoriad a sut mae barn plant a phobl ifanc wedi'i hystyried gan y rheiny sy'n gwneud penderfyniadau.

C.5. Ymateb Estyn

Isod y mae ymateb Estyn i'r cynnig yn llawn.

Mae pob sylw wedi'i wahanu pan fo angen er mwyn i'r Cyngor ddarparu ei ymateb.

Mae'r sylwadau yn eu cyfanrwydd, heb ymateb y Cyngor, wedi'u cynnwys yn Atodiad E.4.

Crynodeb / Casgliad

Mae Estyn yn ystyried bod y cynnig yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal, o leiaf.

Ymateb y Cyngor

Nodwyd.

Disgrifiad a manteision

Mae'r awdurdod lleol wedi amlinellu rhesymeg glir ar gyfer ei gynnig. Mae hyn yn nodi'n eglur ac yn rhesymol y manteision a'r anfanteision disgwyliedig o gymharu â'r sefyllfa bresennol a dewisiadau amgen eraill, a sut byddant yn rheoli unrhyw risg.

Ymateb y Cyngor

Nodwyd.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu disgrifiad clir o'r cynnig ac amserlen ragamcanol ar gyfer gweithdrefnau statudol a gweithredu. Mae'r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn rhan o'i gynnig.

Ymateb y Cyngor

Nodwyd.

Yr ysgolion sy'n cael eu heffeithio yn uniongyrchol gan y cynnig yw pedair o'r chwe ysgol Gatholig wirfoddol a gynorthwyir cyfrwng Saesneg yn yr awdurdod lleol, a'r ysgolion eraill yw Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir yr Hybarch Edward Morgan, Shotton, ac Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Gwenffrewi, Treffynnon.

Ymateb y Cyngor

Nodwyd.

Mae'r cynnig yn nodi y bu gostyngiad cyson yn niferoedd y disgyblion ar draws tair o'r pedair ysgol dros y pum mlynedd ddiwethaf. Mae'r gostyngiad hwn yn digwydd gyflymaf yn Ysgol Sant Anthony lle mae niferoedd wedi mwy na haneru er 2020, gan arwain at 69% o leoedd dros ben erbyn mis Medi 2025. Er gwaethaf cynnydd cymedrol yn niferoedd y disgyblion yn Ysgol y Santes Fair dros y pum mlynedd ddiwethaf, rhagamcenir y bydd y lleoedd dros ben yn gyffredinol ar draws y pedair ysgol yn cynyddu o 31% ym mis Medi 2025 i 47% ym mis Medi 2030. Mae'r cynnydd rhagamcanol hwn yn fwyaf difrifol yn Ysgol Sant Anthony ac Ysgol Dewi Sant lle rhagamcenir y bydd cyfraddau'r lleoedd dros ben ym mis Medi 2030 yn 79% a 69%, yn y drefn honno.

Ymateb y Cyngor

Nodwyd.

Mae'r Cyngor yn nodi'n gywir y bydd ei gynnis i gau Ysgol Sant Anthony yn lleihau nifer y lleoedd dros ben ar draws y ddarpariaeth Gatholig. Mae'r cynigiwr hefyd yn dadlau, nid yn afresymol, o ystyried y duedd gynyddol gyffredinol mewn lleoedd dros ben, y gallai cynaliadwyedd tymor hir y tair ysgol arall wella yn sgil eu huno, o bosibl. Yn benodol, mae'r cynnig yn nodi y gallai uno'r ysgolion alluogi ysgolion i gydgyfrannu adnoddau ac elwa ar arbedion maint. Mae'r cynnig hefyd yn awgrymu'n deg y byddai agor adeilad ysgol Gatholig wirfoddol a gynorthwyir 3-18 yn ddiweddarach, yn 2030, yn mynd i'r afael â diffygion a nodwyd yn addasrwydd adeiladau presennol ar draws yr ysgolion hyn, yn y tymor hwy. Capasiti cyffredinol yr adeilad newydd arfaethedig fyddai 1185 o leoedd i ddisgyblion amser llawn; 315 yn y sector cynradd ac 870 yn y sector uwchradd. Mae rhagolwg presennol yr awdurdod lleol o ran niferoedd y disgyblion ar gyfer 2030 ar draws y pedair ysgol yn nodi y byddai hyn yn gadael 16% o leoedd dros ben yn y sector cynradd a 37% o leoedd dros ben yn y sector uwchradd.

Ymateb y Cyngor

Nodwyd.

Mae'r awdurdod lleol yn amlinellu chwe opsiwn posibl yn ei gynnis, ac mae'r rhain yn cynnwys cynnal y sefyllfa bresennol. Mae'r pedwar opsiwn amgen pellach yn cyflwyno gwahanol fodelau posibl i gau, uno a ffedereiddio, ac mae pob un ohonynt yn cynnwys buddsoddiad sylweddol i ailfodelu neu ailadeiladu ar safle Ysgol Sant Richard Gwyn i greu ysgol 3-18 newydd. Mae pob un o'r modelau hyn yn mynd i'r afael, i raddau mwy neu lai, â nifer y lleoedd dros ben a'r costau cynnal a chadw presennol a chostau yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â pharhau i weithredu nifer ddewisol o ysgolion cynradd Catholig gwirfoddol a gynorthwyir yn eu lleoliadau presennol. Mae'n ymddangos bod y cynigiwr wedi ystyried manteision ac anfanteision pob un yn briodol, a'r prif reswm dros ddiystyru pob un ohonynt yw methiant i fynd i'r afael â nifer uchel y lleoedd dros ben. Mae'n ymddangos bod hyn yn rhesymol.

Ymateb y Cyngor

Nodwyd.

Mae'r cynnig yn nodi bod angen gwella amgylchedd dysgu rhai ysgolion Catholig gwirfoddol a gynorthwyr yn rhan o'i nod i gyflawni cynaliadwyedd hirdymor, ac mae'n amlygu hyn trwy gynnwys gwybodaeth ynghylch y radd bresennol o ran cyflwr ac addasrwydd ar gyfer pob ysgol. Yr ôl-groniad o ran gwaith cynnal a chadw ar draws y pedair ysgol yw £1.45 miliwn. Er y byddai adeilad ysgol 3-18 newydd yn darparu amgylchedd gwell ar gyfer disgyblion a staff, nid yw'r cynnig yn nodi cost ddisgwyliedig debygol gwaith cynnal a chadw parhaus yn yr ysgolion yn y blynyddoedd cyn y bwriedir agor yr ysgol. Er y byddai'r cynllun arfaethedig i gau Ysgol Sant Anthony yn lleihau'r ôl-groniad hwn, mae costau cysylltiedig yr ysgol yn cyfrif am lai na 2% o'r cyfanswm hwn.

Ymateb y Cyngor

Derbynnir nad yw'r ddogfen ymgynghori yn darparu cost debygol cynnal a chadw'r ysgolion yn ystod y blynyddoedd cyn i'r ysgol newydd arfaethedig agor.

Fel y nodir uchod, fel rhan o'r ymateb dan y themâu ariannol, yn ystod y blynyddoedd ariannol diwethaf mae cyfartaledd o £0.489 miliwn y flwyddyn wedi'i fuddsoddi mewn atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw ar draws yr ysgolion presennol, gydag oddeutu dau draean o'r gwariant hwnnw wedi bod ar yr ysgol uwchradd Gatholig.

Fel bob ysgol arall, bydd y Cyngor, yr Esgobaeth a'r cyrff llywodraethu yn parhau i fonitro cyflwr adeiladau ac ymgymryd â gwaith cynnal a chadw ac iechyd a diogelwch hanfodol i sicrhau bod y safleoedd yn ddiogel a phopeth yn gweithio'n iawn – a dyna fyddai'n digwydd yn y cyfamser, gydag ysgolion Dewi Sant, y Santes Fair a Richard Gwyn yn parhau i weithredu ar eu safleoedd presennol.

Tra bod cau Ysgol Sant Anthony yn cael gwared ar ganran fechan o'r gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni (gwerth £20,831 – llai na 2% o'r cyfanswm o £1.45 miliwn), dylid edrych ar y cynnig yn ei gyfanrwydd. Byddai'r dewis a ffeirir yn cael gwared ar bedwar hen adeilad o'r stad Gatholig ac yn eu disodli gydag ysgol fodern, carbon sero net – gan leihau'r rhwymedigaethau cynnal a chadw, costau cynnal a chadw a'r gwariant ar ynni yn sylweddol,

Mae'r costau cynnal a chadw mwyaf i'w gweld yn Ysgol y Santes Fair (£401,702) ac Ysgol Sant Richard Gwyn (£853,422), y mae eu hadeiladau wedi'u hasesu â Gradd Cyflwr C (gwael). Y ddwy ysgol yma sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw. Felly mae'r cynnig yn darparu ateb hirdymor i'r ysgolion sydd â'r angen mwyaf am fuddsoddiad, yn hytrach na gorfod gwario'n barhaus ar hen adeiladau.

Yn ogystal, mae'r ddogfen ymgynghori yn egluro na fyddai mynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw ar ei ben ei hun yn opsiwn a bod yr opsiwn hwnnw wedi'i ddiystyru gan nad yw'n mynd i'r afael â lleoedd gwag, gostyngiad yn nifer y disgyblion na chynaliadwyedd addysg Gatholig yn y tymor hir. Dewiswyd y dewis a ffeirir oherwydd ei fod yn darparu amgylcheddau dysgu modern, yn lleihau rhwymedigaethau cynnal a chadw, yn gwella effeithlonrwydd ynni ac yn darparu model cynaliadwy ar gyfer dyfodol addysg Gatholig yn Sir y Fflint.

Mae'n ymddangos bod y cynigiwr wedi ystyried yr agweddau ariannol ar y cynnig yn addas, ac mae hyn yn cynnwys cydnabod nad oes cyllid grant wedi cael ei sicrhau eto, ac na ellir gweithredu'r cynnig hebdo.

Ymateb y Cyngor

Nodwyd.

Mae'r cynnig yn amlinellu y byddai angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol i godi adeilad ysgol 3-18 newydd. Amcangyfrifodd astudiaeth ddichonoldeb yn 2024 mai cost hyn fydd £55 miliwn, er y bydd angen modelu costau cyfoes i ddarparu amcangyfrif mwy cywir yn seiliedig ar amodau

presennol y farchnad. Mae'r cynnig yn nodi y byddai arbedion posibl yn y dyfodol yn deillio o ostyngiad mewn lleoedd dros ben ac effeithlonrwydd cynyddol yn gysylltiedig â gweithredu un ysgol fwy.

Ymateb y Cyngor

Nodwyd.

Mae'r cynnig yn nodi gostyngiad blynyddol posibl mewn costau staffio ar draws ysgolion o £209,000, yn seiliedig ar niferoedd disgyblion 2025. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn ei gwneud yn glir sut byddai'r arbediad hwn yn cael ei gyflawni, neu'n fwy penodol, sut byddai'r strwythur staffio yn cael ei addasu o ganlyniad i ad-drefnu. Er enghraifft, nid yw'r cynnig yn ystyried tebygolrwydd diswyddo gwirfoddol neu orfodol nac effaith y newidiadau i rolau arwain. Mae'r cynnig yn datgan y byddai unrhyw arbedion sy'n cael eu rhyddhau trwy ad-drefnu yn cael eu dileu o gyllideb gyffredinol yr ysgol, gan alluogi dosbarthiad tecach ar draws rhwydwaith yr ysgol gyfan.

Ymateb y Cyngor

Derbyniwyd.

Ar y cam hwn, nid yw'n bosibl cadarnhau beth fydd y strwythur staffio terfynol na nodi'r union arbedion a fydd yn cael eu gwneud, yn cynnwys a fydd angen gwneud diswyddiadau, boed hynny'n wirfoddol neu'n orfodol. Dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion, bydd corff llywodraethu dros dro yn cael ei sefydlu ar gyfer yr ysgol newydd. Ar ôl penodi pennaeth, bydd y corff llywodraethu, gan weithio gyda'r Cyngor a'r Esgobaeth, yn penderfynu ar y strwythur staffio mwyaf priodol i gefnogi'r ysgol newydd.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn cydnabod, yn ystod y camau cychwynnol, y bydd yr ysgol unedig yn parhau i weithredu ar draws y safleoedd presennol. O ganlyniad i hynny, rhagwelir na fydd llawer o newid yn y strwythurau staffio yn y tymor byr – y newid mwyaf sylweddol fydd symud i drefniant arwain sengl, yn cynnwys penodi un pennaeth ar gyfer yr ysgol pob oed.

Mae'r cynnig hefyd yn nodi na fydd y niferoedd staffio yn newid yn sylweddol os yw'r disgyblion yn aros o fewn darpariaeth addysg Gatholig Sir y Fflint, gan fod lefelau staffio yn cael eu pennu'n bennaf ar sail nifer y disgyblion.

Bydd unrhyw newid i'r trefniadau staffio, yn cynnwys rolau arwain, yn cael ei reoli drwy'r gweithdrefnau cyflogaeth sefydledig, mewn ymgynghoriad â staff ac undebau llafur cydnabyddedig ac yn unol â gofynion statudol a chontractau.

Mae'r Cyngor a'r Esgobaeth yn fodlon bod yr arbedion staffio dangosol a nodir yn y cynnig yn amcangyfrifon rhesymol sy'n seiliedig ar uno swyddogaethau, trefniadau arwain ac effeithlonrwydd gweithredol hirdymor. Bydd strwythurau staffio manwl yn cael eu datblygu ar y cam priodol, unwaith y bydd nifer y disgyblion, trefniadau gweithredu a'r gofynion o ran y cwricwlwm wedi'u cadarnhau.

Mae'r cynnig yn cynnwys pedair ysgol wirfoddol a gynorthwyir sy'n cael eu perchnogi gan yr Esgobaeth Gatholig. Mae'n rhoi manylion am drefniadau addas i drosglwyddo perchnogaeth yr adeiladau a'r safleoedd mewn camau priodol yn ystod y broses. Os na fydd angen safleoedd at ddibenion addysgol mwyach, byddai'n cael ei ddatgan nad oes angen adeiladau a'r tir mwyach o ran y portffolio Addysg ac Ieuencid, a byddai rheolaeth yn cael ei throsglwyddo i adran Rhaglen Gyfalaf ac Asedau'r Cyngor.

Ymateb y Cyngor

Nodwyd.

Mae'n ymddangos bod y cynigiwr wedi ystyried effaith y newidiadau ar drefniadau teithio dysgwyr yn addas. Rhagwelir y byddai amseroedd teithio cyfartalog ar gyfer disgyblion sy'n mynychu Ysgol Sant Anthony ar hyn o bryd yn cynyddu o 15 munud i uchafswm o 45 munud. Bydd y disgyblion hyn yn gymwys i gael cludiant ysgol i Ysgol yr Hybarch Edward Morgan, yn unol â pholisi'r awdurdod lleol ar gludiant o'r cartref i'r ysgol, gan arwain at gynnydd posibl mewn costau o £60,000 y flwyddyn.

Ymateb y Cyngor

Nodwyd.

Ar ôl yr uno arfaethedig, byddai disgyblion o Ysgol Dewi Sant ac Ysgol y Santes Fair yn parhau i ddefnyddio'r un adeiladau ysgol ag o'r blaen, i ddechrau. O ystyried pa mor agos i'w gilydd y mae safleoedd Ysgol y Santes Fair ac Ysgol Sant Richard Gwyn, pan fydd yr un adeilad 3-18 newydd arfaethedig yn agor yn Y Fflint, ni fyddai unrhyw effaith arwyddocaol ar y pellterau cerdded na'r amseroedd teithio ar gyfer y disgyblion hyn a byddai costau cludiant yn aros yr un fath. Fodd bynnag, byddai'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n mynychu safle Ysgol Dewi Sant yn rhan o'r ddarpariaeth 3-18 wedyn yn wynebu pellterau cerdded ac amseroedd teithio hwy. Ynarwyddocaol, er bod bron i hanner y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Dewi Sant ar hyn o bryd yn byw mwy na dwy filltir o'r ysgol, i lawer, nid adeilad yr ysgol 3-18 newydd fyddai'r ddarpariaeth gynradd Gatholig agosaf mwyach (Ysgol yr Hybarch Edward Morgan fyddai hon). O ganlyniad, ni fyddai llawer o ddisgyblion Ysgol Dewi Sant sy'n parhau i fynychu'r ysgol wedi'i huno ar safle'r Fflint yn gymwys i gael cludiant o'r cartref i'r ysgol. Er y byddai hyn yn creu arbediad blynyddol posibl rhwng £33,000 a £40,000 ar gyfer yr awdurdod lleol, mae'r cynigiwr yn cydnabod y byddai cael gwared â chludiant o'r cartref i'r ysgol yn gwneud trosglwyddo i'r safle newydd yn anodd. Mae'r cynnig yn datgan y byddai'r awdurdod lleol yn gweithio gyda theuluoedd sydd wedi eu heffeithio i sefydlu trefniadau addas i helpu hwyluso mynychu safle'r ysgol newydd, er nad yw'n rhoi manylion am beth allai'r rhain fod.

Ymateb y Cyngor

Nodwyd.

Gall colli cludiant am ddim wneud y broses o symud i'r safle yn y Fflint yn heriol i rai teuluoedd Ysgol Dewi Sant. Am y rheswm yma, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithio'n uniongyrchol gyda'r teuluoedd a effeithir arnynt i edrych ar drefniadau addas a fyddai'n helpu disgyblion i fynd i'r ysgol newydd a lleihau'r amhariadau yn ystod y cyfnod pontio. Bydd unrhyw gynllun pontio yn cael ei deilwra i deuluoedd unigol.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y bydd disgyblion o Ysgol Dewi Sant ac Ysgol y Santes Fair yn parhau i gael eu haddysgu ar eu safleoedd presennol pan fydd yr ysgolion yn uno fis Medi 2027. Ni ragwelir y byddai'r plant yn symud i'r adeilad newydd tan fis Medi 2030.

O ystyried natur y cynnig, ni ragwelir y bydd unrhyw newidiadau i drefniadau derbyn a fyddai'n cael eu gweinyddu gan y corff llywodraethol newydd. Bydd y ddarpariaeth chweched dosbarth bresennol a gynigir yn Ysgol Sant Richard Gwyn yn debyg i'r hyn a fydd yn cael ei ddarparu yn rhan o'r ysgol newydd, yn cynnwys cadw darpariaeth yn Saesneg. Gan fod y cynnig yn lleihau capasiti cyffredinol addysg uwchradd Gatholig, mae nifer y lleoedd chweched dosbarth wedi lleihau ychydig bach, hefyd.

Ymateb y Cyngor

Nodwyd.

Mae'r cynnig yn cydnabod yn briodol y byddai cau Ysgol Sant Anthony, a darpariaeth ar safle Ysgol Dewi Sant yn ddiweddarach, yn cael effaith negyddol ar ddarpariaeth gofleidiol yn

ardaloedd Saltney a'r Wyddgrug. Yn ychwanegol, gallai darparwyr gofal plant trydydd parti weld bod gostyngiad yn y galw os bydd disgyblion o'r ysgolion hyn yn trosglwyddo i'r ysgolion amgen arfaethedig. Fodd bynnag, mae'r cynigiwr yn nodi y gallai darparwyr gofal plant weld galw cynyddol yn ardal Y Fflint os bydd disgyblion o ysgolion eraill yn trosglwyddo i'r ysgol newydd.

Ymateb y Cyngor

Nodwyd.

Mae'r cynnig yn tybio'n rhesymol y bydd y newid arfaethedig mewn statws ysgol yn cael effaith niwtral ar y Gymraeg, at ei gilydd. Bydd darpariaeth iaith yn yr ysgol wedi'i huno yn parhau i gefnogi'r amcanion yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yr awdurdod lleol. Mae'r cynnig yn nodi y gallai cau Ysgol Sant Anthony olygu bod rhai disgyblion yn trosglwyddo i ddarpariaeth Gatholig amgen, agosach ar draws y ffin sy'n golygu na fydd y disgyblion hynny'n cael cyfle i ddysgu Cymraeg.

Ymateb y Cyngor

Nodwyd.

Agweddau addysgiadol y cynnig

Mae'r awdurdod lleol yn rhoi ystyriaeth briodol yn ei gynnis i effaith y newid ar ansawdd a safonau mewn addysg. Er enghraifft, mae'n dangos adroddiad arolygu diweddaraf pob un o'r ysgolion gan Estyn, gan nodi'n benodol yr argymhellion perthnasol. Fodd bynnag, mewn cysylltiad ag Ysgol Sant Anthony (Ionawr 2019) ac Ysgol Dewi Sant (Mawrth 2020), mae'r wybodaeth hon yn eithaf hen, ac nid yw'r cynigiwr yn darparu gwerthusiad mwy diweddar sy'n nodi prif gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Nid yw'r cynigiwr yn darparu unrhyw wybodaeth yn deillio o ymweliadau arolygu gan yr Arolygiaeth Ysgolion Catholig, ychwaith.

Ymateb y Cyngor

Mae arweinyddiaeth ysgolion Sant Anthony a Dewi Sant yn gref ac mae gan y penaethiaid ddealltwriaeth glir o gryfderau a blaenoriaethau'r ysgolion o ran gwella. Mae'r trefniadau llywodraethu wedi'u cryfhau hefyd, gyda'r llywodraethwyr yn cymryd mwy o ran mewn gwaith monitro a hunanwerthuso. Ers eu harolygon Estyn diwethaf, mae'r ddwy ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r argymhellion.

Yn Ysgol Sant Anthony, mae gwaith cynllunio i addysgu Cymraeg wedi gwella ac mae gweithdrefnau monitro presenoldeb wedi'u cryfhau. Mae'r athrawon hefyd yn darparu mwy o gyfleoedd i'r disgyblion gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu a bod yn annibynnol. Mae gwaith cynllunio'r cwricwlwm hefyd wedi'i fireinio i gynyddu'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu sgiliau rhifedd a TGCh ar draws y meysydd dysgu gwahanol.

Yn Ysgol Dewi Sant mae trefniadau cynllunio'r cwricwlwm wedi'u hadolygu i sicrhau bod disgyblion yn cael eu herio'n briodol ac yn cael mwy o ddylanwad ar sut a beth maent yn ei ddysgu. Mae uwch arweinwyr wedi mireinio gweithdrefnau monitro gan roi mwy o ffocws ar ganlyniadau disgyblion, tra bod systemau ar gyfer cefnogi disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol wedi'u cryfhau i ddarparu darlun cliriach o'r cynnydd. Mae'r ysgol hefyd yn canolbwyntio ar wella her a chynnydd sgiliau, yn enwedig o fewn y cyfnod sylfaen.

Er gwaethaf y cryfderau hyn, mae'r ddwy ysgol yn wynebu heriau tebyg. Mae gostyngiad yn nifer y disgyblion wedi arwain at ddosbarthiadau gydag oedranau gwahanol, gyda rhai dosbarthiadau yn cynnwys 4 grŵp oedran. O ganlyniad mae gwaith cynllunio'r cwricwlwm yn parhau i gael ei ddatblygu i sicrhau cynnydd yn sgiliau'r disgyblion ar draws yr ystod oedran. Blaenoriaeth a rennir yw datblygu sgiliau dysgu annibynnol y disgyblion, fel bod y dysgwyr yn magu mwy o hyder, gwydnwch ac yn gallu gwneud pethau'n annibynnol.

Cafodd Ysgol Dewi Sant ei harolygu gan Arolygiaeth Ysgolion Catholig (Arolygiad Adran 50) fis Rhagfyr 2025. Amlygodd yr arolwg fod gan yr ysgol berthnasod cryf, cefnogaeth fugeiliol effeithiol a synnwyr cryf o gymuned. Roedd yr arolygwyr yn cydnabod y cyfleoedd a ddarperir i ddisgyblion roi eu ffydd ar waith ac yn cydnabod gwaith effeithiol y pennaeth gyda llywodraethwyr a staff i sicrhau gwelliant. Fodd bynnag, nododd yr adroddiad bod rhai datblygiadau yn dal ar gamau cynnar iawn a bod angen eu gwreiddio'n ymhellach.

Mewn ymateb, mae argymhellion yr Arolwg Adran 50 wedi'u cynnwys yng nghynlluniau datblygu'r ddwy ysgol. Mae'r blaenoriaethau yn cynnwys mwy o gysondeb yn y cylch monitro, gwerthuso ac adolygu er mwyn cryfhau'r cysylltiadau rhwng cynllunio gwelliannau a dysgu proffesiynol. Mae'r ysgolion hefyd yn cydweithio i wella cysondeb yr addysgu drwy sesiynau dysgu proffesiynol ar y cyd sy'n canolbwyntio ar gyflymdra effeithiol, cwestiynu lefel uwch a strategaethau addysgu hyblyg. Yn ogystal, mae'r staff yn datblygu amrywiaeth o weithgareddau addoli ystyrlon, yn cynnwys mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gynllunio, paratoi ac arwain gweithgareddau addoli.

Mae'r cynnig yn ystyried effaith bosibl y newidiadau ar addysgu a dysgu, yn cynnwys ar gyfer y disgyblion hynny ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn addas. Mae'r cynnig hefyd yn ystyried yr effaith ar arweinyddiaeth yr ysgol a'i darpariaeth ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion. Mae'r cynnig yn nodi'n deg nifer o fanteision posibl sy'n deillio o ddarparu cyfleuster newydd, pwrpasol, sy'n cynnwys mynediad at ofodau addysgu arbenigol sy'n cefnogi cyflwyno cwricwlwm eang ar draws pob oedran. Yn benodol, mae'r cynnig yn amlygu sut gallai darparu addysgu mewn grwpiau bach ac ystafelloedd ymyrraeth, gofodau symbyliad isel a chyfleusterau hylendid a hygyrchedd arbenigol wella cynnydd a lles disgyblion ag ADY a disgyblion eraill. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn canolbwyntio'n benodol ar sut gallai'r newidiadau arfaethedig gefnogi meysydd cyffredin i'w gwella a nodwyd trwy arolygiadau Estyn, er enghraifft yr angen i wella cyfleoedd i ddisgyblion iau ddangos blaengaredd ac annibyniaeth yn eu dysgu, neu gryfhau darpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion.

Ymateb y Cyngor

Mae staff Ysgol Sant Anthony ac Ysgol Dewi Sant wedi ymateb yn gadarnhaol i'r canllawiau ar ddatblygu dysgu sylfaen. Mae gan y ddau safle botensial i ddatblygu darpariaeth ddysgu awyr agored o ansawdd uchel, ond mae hyn ar gam cynnar iawn o hyd. Mae'r newidiadau arfaethedig yn gyfle i adeiladu ar y cynnydd sydd eisoes wedi'i wneud a mynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn arolygon diweddar Estyn. Byddai partneriaeth agosach a rhannu arbenigedd yn cefnogi datblygiad parhaus sgiliau dysgu annibynnol, yn enwedig ymhlith disgyblion iau. Byddai gwaith cynllunio'r cwricwlwm a dysgu proffesiynol ar y cyd yn helpu staff i wreiddio dulliau mwy cyson ar gyfer dysgu a arweinir gan ddisgyblion, gweithgareddau holi a phenderfyniadau a wneir gan ddisgyblion. Byddai hyn yn galluogi disgyblion i gael mwy o berchnogaeth dros eu dysgu, gan fagu hyder, gwydnwch ac annibyniaeth.

Byddai'r trefniadau arfaethedig hefyd yn cryfhau datblygiad y Gymraeg. Drwy gynllunio ar y cyd, gall staff rannu arbenigedd, adnoddau ac ymarfer effeithiol, hyrwyddo mwy o gysondeb o ran addysgu Cymraeg a chreu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu a defnyddio eu sgiliau Cymraeg ar draws y cwricwlwm ac mewn sefyllfaoedd gwahanol. Mae arweinwyr Ysgol Uwchradd Sant Richard Gwyn wedi amlygu pontio fel arf pwysig i wella safonau Cymraeg dysgwyr; byddai'r trefniadau arfaethedig yn caniatáu dull mwy cydlynol i wneud cynnydd yn yr iaith.

Byddai'r cynnig yn cefnogi gwelliannau o ran cynnydd a her yn y cwricwlwm. Drwy gydweithio i fynd i'r afael â chymhlethdodau dosbarthiadau cynradd gyda grwpiau oedran gwahanol, gall staff ddatblygu fframweithiau cynnydd a dulliau cynllunio a rennir i sicrhau bod disgyblion yn adeiladu ar eu gwybodaeth a'u sgiliau yn systematig wrth iddynt fynd drwy'r ysgol. Byddai

cyfleoedd i safoni gwaith a rhannu arfer gorau o fewn ac ar draws camau yn helpu i gynnal disgygliadau uchel, safonau cyson a sicrhau dealltwriaeth a rennir o gynnydd.

Yn ogystal, mae cydweithio gwell rhwng y camau cynradd ac uwchradd yn gallu cryfhau trefniadau monitro, gwerthuso a phrosesau gwella ysgol. Byddai strwythurau arwain a rennir a dysgu proffesiynol ar y cyd yn cyfrannu at gylch cadarn o hunanwerthuso, gan helpu arweinwyr a llywodraethwyr i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu yn fwy effeithiol. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ran argymhelliad yr Arolygaeth Ysgolion Catholig i gryfhau trefniadau monitro a gwerthuso a chysylltu canfyddiadau yn agosach at ddysgu proffesiynol ac, fel y nodwyd gan Estyn, yr angen parhaus i arweinwyr Ysgol Sant Richard Gwyn barhau i sicrhau bod prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliannau yn effeithiol.

Yn olaf, byddai'r newidiadau arfaethedig yn gwella'r cyfleoedd i staff gydweithio a datblygu'n broffesiynol. Byddai hyfforddiant ar y cyd, i ganolbwyntio ar strategaethau addysgu effeithiol, cwestiynu lefel uwch, addysgu hyblyg a datblygu ffydd yn gwella cysondeb ac ansawdd yr addysgu ar draws bob ysgol. O ganlyniad, byddai disgyblion yn elwa ar brofiadau dysgu o ansawdd uchel, canlyniadau gwell a chefnogaeth barhaus ar gyfer eu datblygiad academaidd, personol ac ysbrydol.

Mae'r cynnig yn dadlau'n rhesymol fod ei fodel 3-18 yn cynnig cyfle i ddarparu cyfeiriad strategol clir ar draws sectorau a darparu dull mwy cydlynus o ran dysgu proffesiynol. Fodd bynnag, er bod y cynnig yn nodi manteision posibl fel cysondeb gwell yn ansawdd yr addysgu, cyfnod pontio mwy esmwyth ar gyfer disgyblion, a chwricwlwm mwy cynhwysol a difyr, nid yw'n rhoi manylion am fesurau na threfniadau penodol y bydd yn eu defnyddio i sicrhau bod y nodau hyn yn cael eu cyflawni. Yn ychwanegol, er bod y cynnig yn pwysleisio rôl arwyddocaol yr amgylchedd ffisegol yn nysgu a datblygiad disgyblion, nid yw gwybodaeth am yr adeilad newydd yn ddigon manwl ar hyn o bryd i ystyried yn wrthrychol sut gallai effeithio ar brofiad disgyblion.

Ymateb y Cyngor

Nodwyd.

Byddai'r ysgol newydd yn gweithredu dan un strwythur arwain a llywodraethu, gyda pholisïau, trefniadau cynllunio a chyfleoedd dysgu proffesiynol a rennir. Byddai hynny'n cefnogi mwy o gysondeb yn yr addysgu, dysgu a gwelliannau ysgol ar draws y camau oedran.

Byddai'r trefniadau penodol a fyddai'n cefnogi cyflawni'r manteision hyn yn cynnwys datblygu fframwaith cwricwlwm pob oed, darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol a rennir ar gyfer staff yr holl gyfnodau, datblygu dulliau cyson ar gyfer asesu a chynnydd dysgwyr, datblygu trefniadau lles a diogelu cyson a chydlynw prosesau pontio. Bydd y mesurau hyn yn sicrhau bod y buddion addysgol a nodir yn y cynnig yn cael eu gwreiddio o'r cychwyn cyntaf yn hytrach na datblygu o ganlyniad i newid sefydliadol yn unig.

Bydd y model pob oed yn cryfhau prosesau pontio drwy ganiatáu i ddisgyblion ddatblygu drwy gymuned yr ysgol, wedi'u cefnogi gan ddulliau addysgu, trefniadau bugeiliol a systemau olrhain dysgwyr cyson. Disgwylir y byddai hynny'n lleihau amhariadau ac yn cefnogi parhad mewn dysgu a lles.

Byddai cwricwlwm mwy cynhwysol a diddorol yn cael ei gefnogi drwy gydweithio gwell rhwng staff, mynediad at gyfleusterau arbenigol ac arbenigedd addysgu, cefnogaeth well i ddysgwyr a darpariaeth well ar gyfer disgyblion ag ADY. Mae'r cynnig yn amlygu y byddai'r ysgol newydd yn darparu cyfleusterau modern a phwrpasol wedi'u dylunio i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru, yn cynnwys ardaloedd addysgu arbennig, cyfleusterau lles ac ADY, gofodau dysgu awyr agored, cyfleusterau chwaraeon a darpariaeth feithrin. Bydd cynllun yr ysgol arfaethedig yn cael ei ddatblygu gyda budd-ddeiliaid a bydd yn ceisio darparu amgylchedd dysgu diogel, hygyrch a charbon sero net sy'n hyrwyddo dysgu a lles.

Bydd yr adeilad yn cydymffurfio â chanllawiau Cymru ar gyfer ysgolion ac er y bydd cynllun manwl yr ysgol yn cael ei ddatblygu yn ystod cam nesaf y prosiect, mae'r Cyngor yn fodlon bod y model addysg arfaethedig a'r egwyddorion dylunio yn darparu fframwaith clir i wella profiadau a chanlyniadau addysg dysgwyr.

Mae'r cynnig i uno Ysgol Dewi Sant, Ysgol y Santes Fair ac Ysgol Sant Richard Gwyn cyn codi adeilad 3-18 newydd yn golygu y bydd disgyblion yn aros ar eu safle presennol am o leiaf dair blynedd gyntaf yr ysgol 3-18 newydd. Felly, bydd tarfu cyfyngedig ar addysg disgyblion tra bod yr adeilad newydd yn cael ei godi. Mae hyn yn debygol o ddarparu cyfle addas i sefydlu strwythur arwain a llywodraethu ar y cyd ar draws y tri safle hefyd, a fydd yn helpu hwyluso'r cyfnod pontio i un safle, a phan fydd disgyblion yn symud o addysg gynradd i addysg uwchradd yn y cyfamser.

Ymateb y Cyngor

Nodwyd.

C.6. Asesu'r Cynnig yn dilyn yr Ymgynghoriad

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2026 mae'r Esgobaeth a'r Cyngor wedi adolygu'r holl ymatebion a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad, yn cynnwys y rhai a gyflwynwyd gan ddisgyblion, rhieni, gofalwyr, staff, llywodraethwyr, cynrychiolwyr cymunedol, Estyn a budd-ddeiliaid eraill.

Amlygodd yr adborth a gafwyd nifer o faterion, yn cynnwys trefniadau teithio dysgwyr, hunaniaeth gymunedol, addysg Gatholig o fewn cymunedau, darpariaeth ADY, cynaliadwyedd ysgolion, yr effaith ar y Gymraeg, agor ysgol 3-18 oed a hyder yn y broses o wneud penderfyniad.

Awgrymwyd nifer o ddulliau amgen hefyd, yn cynnwys cadw'r ysgolion fel y maent, buddsoddi mewn safleoedd unigol, cadw'r ddarpariaeth Gatholig yn Saltney a'r Wyddgrug ac edrych ar drefniadau uno amgen.

Mae'r Cyngor a'r Esgobaeth wedi ystyried y rhain yn ofalus, ochr yn ochr â'r opsiynau a aseswyd yn flaenorol wrth ddatblygu'r cynnig. Tra bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad wedi darparu gwybodaeth ychwanegol o ran pryderon budd-ddeiliaid a chryfder y farn yn lleol, nid oes tystiolaeth newydd wedi'i chyflwyno sy'n gwneud unrhyw newid sylweddol i'r asesiad sydd wedi'i gynnwys yn y ddogfen ymgynghori.

Mae'r Cyngor a'r Esgobaeth yn hapus nad yw'r opsiynau amgen sydd eisoes wedi'u hystyried yn mynd i'r afael, i'r fath raddau, â'r heriau sy'n gysylltiedig â gostyngiad yn nifer y disgyblion, lleoedd gwag, addasrwydd adeiladau, gofynion cynnal a chadw a chynaliadwyedd hirdymor addysg Gatholig yn Sir y Fflint.

Ar ôl ystyried yr holl ymatebion ac awgrymiadau amgen, nid yw asesiad y Cyngor a'r Esgobaeth o'r cynnig wedi newid.

Mae'r Cyngor a'r Esgobaeth yn dal yn credu mai'r cynnig hwn yw'r ateb mwyaf priodol i'r materion a nodwyd yn ystod yr adolygiad o addysg Gatholig y sir. Mae'r casgliad hwn yn seiliedig ar yr angen i ddarparu addysg Gatholig gynaliadwy, gwella amgylcheddau dysgu, lleihau lleoedd gwag, cryfhau trefniadau arwain, gwella dilyniant addysgol o 3 i 18 oed a sicrhau y gwneir defnydd effeithiol o adnoddau cyhoeddus gan gynnal safonau addysg er budd dysgwyr heddiw a'r dyfodol.



RHAN D. CAMAU NESAF

D.1. Cymeradwyaeth i Fwrw Ymlaen

Ar **ddydd Gwener 18 Medi 2026**, cyflwynwyd drafft o'r Adroddiad Ymgynghori i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant y Cyngor.

Mae manylion y cyfarfod i'w weld trwy ddilyn y ddolen ganlynol:

<https://cyfarfodyddpwyllgor.sirymfflint.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=512&MId=6254&Ver=4&LLL=1>

Ar **ddydd Iau 6 Hydref 2026** bu i Gabinet y Cyngor gymeradwyo cynnig i fwrw ymlaen â chyhoeddi hysbysiad statudol i ddechrau cyfnod 28 diwrnod o wrthwynebu.

Mae manylion y cyfarfod i'w weld trwy ddilyn y ddolen ganlynol:

<https://cyfarfodyddpwyllgor.sirymfflint.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=391&MId=6255&Ver=4&LLL=1>

Yn y cyfarfod hwn, bu'r Cabinet yn ystyried llythyr cyfreithiol a gyflwynwyd ar ran Corff Llywodraethu Ysgol Dewi Sant. Penderfynodd y Cabinet y dylai crynodeb o ymateb y Cyngor i'r llythyr gael ei gyhoeddi fel atodiad i'r adroddiad hwn (Atodiad E.5)

Cafodd penderfyniad y Cabinet ei 'alw i mewn' ar gyfer adolygiad pellach gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant, ac fe gafwyd trafodaeth ar **ddydd Iau 15 Hydref 2026**.

Mae manylion y cyfarfod i'w weld trwy ddilyn y ddolen ganlynol:

<https://cyfarfodyddpwyllgor.sirymfflint.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=512&MId=6258&Ver=4&LLL=1>

D.2. Hysbysiad Statudol a Chyfnod Gwrthwynebu

Yn dilyn y penderfyniad i fwrw ymlaen â'r cynnig, caiff hysbysiad statudol ei gyhoeddi.

Caiff unrhyw berson wrthwynebu cynigion cyhoeddedig. Er mwyn iddynt gael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol, rhaid cyflwyno gwrthwynebiadau'n ysgrifenedig (gan gynnwys drwy e-bost) a'u hanfon at y Cyngor o fewn 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y cyhoeddwyd yr hysbysiad ("y cyfnod gwrthwynebu").

Bydd y Cabinet yn ystyried unrhyw ganlyniadau o'r cyfnod gwrthwynebu er mwyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â gweithredu.

RHAN E. ATODIADAU

E.1. Budd-ddeiliaid allweddol

Mae'r canlynol wedi cael gwybod drwy lythyr neu drwy e-bost bod y ddogfen hon ar gael a'u bod, pe dymunent, yn gallu derbyn copi caled:

- rhieni (a darpar rieni lle bo modd), gofalmwr a gwarcheidwaid y dysgwyr sy'n mynychu'r ysgolion sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigiwr yn ystyried y byddent yn cael eu heffeithio gan y cynigion;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni, gofalmwr a gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd y mae'r dysgwyr fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ysgol uwchradd honno;
- aelodau o staff yn yr ysgolion sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigiwr yn credu y gallai'r cynigion effeithio arni;
- yr awdurdod cynnal neu'r awdurdod cynnal arfaethedig ar gyfer yr ysgolion sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigiwr yn credu y byddai'r cynigion yn effeithio arnynt (gan gynnwys timau cludiant a phriffyrdd);
- unrhyw awdurdod lleol arall (gan gynnwys rhai yn Lloegr, lle bo hynny'n briodol) y mae'r cynigiwr yn credu bod y cynigion yn debyg o effeithio arnynt gan gynnwys, yn achos DDdY penodol, unrhyw awdurdod sy'n lleoli disgyblion gydag ADY yn yr ysgol sy'n destun y cynigion;
- yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys Gatholig ar gyfer yr ardal ble mae unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgolion eraill y mae'r cynigiwr yn credu y gallai'r cynigion effeithio arnynt;
- unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigiwr yn credu y gallai'r cynigion effeithio arni;
- corff llywodraethu unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigiwr yn credu y gallai'r cynigion effeithio arni;
- Gweinidogion Cymru;
- Aelodau o'r Senedd (AS) ac Aelodau Seneddol (AoS) sy'n cynrychioli'r ardal y mae unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion yn ei gwasanaethu neu y bwriedir iddi wneud;
- Estyn;
- undebau athrawon ac undebau llafur staff sy'n cynrychioli'r athrawon ac aelodau eraill o staff mewn unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion;
- y gwasanaethau gwella ysgolion perthnasol;
- Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer yr ardal y mae unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion yn ei gwasanaethu neu y bwriedir iddi wneud;
- unrhyw gyngor tref neu gymuned ar gyfer yr ardal y mae unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion yn ei gwasanaethu neu y bwriedir iddi wneud;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a / neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant os ydynt yn bodoli;
- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yr awdurdod lleol, unrhyw ddarparwyr annibynnol neu wirfoddol sy'n debygol o gael eu heffeithio a'r sefydliadau ymbarél cenedlaethol sy'n eu cefnogi, Mudiad Meithrin, NDNA Cymru, Clybiau Plant Cymru, Blynyddoedd Cynnar Cymru, PACEY Cymru a Chwarae Cymru;



- yn achos cynigion sy'n effeithio ar Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY), unrhyw gorff iechyd neu drydydd sector perthnasol y mae'r cynigiwr yn credu bod ganddynt fuddiant;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgolion sy'n destun y cynigion;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar chweched dosbarth ysgolion, Medr; ac
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth iaith Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg a Mentrau Iaith
- Arall - Holl Gyngorwyr Cyngor Sir y Fflint

E.2. Ymgynghoriad Plant

E.2.i. Ysgol y Santes Fair – dydd Llun 29 Mehefin 2026

1. Beth ydych chi'n ei hoffi am eich ysgol?

“Pêl-droed, gwaith thema, egwyl”

“Gwneud ffrindiau”

“Mae'r ysgol yn hwyl”

2. Beth fydddech chi'n ei newid?

“Mwy o dechnoleg, ysgol fwy, ystafelloedd dosbarth mwy”

“Mwy o ddysgu yn yr awyr agored a lle tawel yn y dosbarth”

“Cae pêl-droed mwy, llyfrgell fwy a buarth mwy”

“Maint yr ysgol oherwydd byddem yn cael lot o ddisgyblion”

3. Beth allai fod yn dda am ysgol newydd sbon?

“Athrawon newydd, technoleg fwy modern, mwy o le”

“Ffrindiau newydd a ffrindiau o ysgolion gwahanol”

“Mwy o le bwyta a chyflenwadau gwell”

“Byddai'n fodern”

4. Beth allai fod yn anodd neu'n achosi pryder?

“Pobl newydd, colli ffrindiau gorau, hoff athrawon yn ymddeol”

“Mwy o ddosbarthiadau a mynd ar goll”

“Gadael yr ysgol rydych chi wedi bod ynddi ers pan oeddech chi'n fach, a cholli brodyr a chwiorydd”

“Byddai'r plant hŷn gyda'r plant bach, ac fe all y plant mawr fod yn gas gyda'r plant bach”

5. A oes unrhyw beth arall rydych chi'n meddwl y dylai ddigwydd?

“Cadw'r enw ac adeiladu neuadd fwy”

“Cadw'r wisg ysgol, yr enw ar logos”

“Uno Ysgol y Santes Fair a Richard Gwyn yn unig”

E.2.ii. Ysgol Sant Richard Gwyn – dydd Llun 29 Mehefin 2026

1. Beth ydych chi'n ei hoffi am eich ysgol?

“Amser ysgol, athrawon a'r amgylchedd addysgu”

“Lle mawr, dosbarthiadau, llyfrgell a'r cae”

“Rhai o'r athrawon”

“Dydi hi ddim yn rhy fawr ac mae pobl yn gyfeillgar”

2. Beth fydddech chi'n ei newid?

“Ystafell ddrama a theatr fwy, toiledau mwy a gwisg ysgol sy'n fwy cyfforddus”

“Toiledau, achos does dim caeadau ac mae drysau rhai wedi torri”

“Mae'r adeiladau yn hen a does dim awyru yn y dosbarthiadau”

3. Beth allai fod yn dda am ysgol newydd sbon?

“Byddai'n fwy modern, mwy o le a byddai plant cynradd yn dod i adnabod yr ysgol a'r athrawon yn ifanc”

“Proses bontio haws o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, ac adnabod pobl newydd a chael cyfleoedd newydd”

“Cwrdd â phobl newydd a chymysgu grwpiau oed”

“Ystafelloedd i gefnogi plant sydd angen cefnogaeth ac adeilad mwy hygrych”

4. Beth allai fod yn anodd neu'n achosi pryder?

“Dysgu'ch ffordd o amgylch adeilad mwy a chludiant i fyfyrwyr sy'n byw ymhellach i ffwrdd”

“Blynyddoedd iau yn cymysgu gyda blynyddoedd hŷn, a hen adeiladau yn cael eu gadael yn wag”

“Talu am wisg ysgol newydd”

“Cludiant i'r rhai bach – sut ydych chi'n disgwyl i blentyn 3 oed fihafio ar fws am hanner awr?”

5. A oes unrhyw beth arall rydych chi'n meddwl y dylai ddigwydd?

“Uno Ysgol y Santes Fair ac Ysgol Sant Richard Gwyn yn unig a gwella ysgolion unigol”

“Gweithgareddau yn ystod gwyliau'r haf; byddai hen adeiladau yn cael eu gadael a ddim yn cael eu defnyddio er budd i eraill”

“Dw i'n meddwl y dylai pob blwyddyn gael toiled ar wahân.”

“Mwy o ystafelloedd cymorth cyntaf a swyddogion cymorth cyntaf sydd wedi'u hyfforddi i ddelio gyda sefyllfaoedd difrifol, a'u bod yno drwy'r dydd”



E.2.iii. Ysgol Bendigaidd Edward Morgan – dydd Mercher 1 Gorffennaf 2026

1. Beth ydych chi'n ei hoffi am eich ysgol?

“Rydym ni’n hoffi mathemateg, amser chwarae da, tynnu lluniau, lliwio, gwneud gwaith, ysgrifennu, ffrindiau, darllen, ymarfer corff”

“Gliniaduron ac iPads”

“Addysg, bwyd, pêl-droed”

2. Beth fydddech chi’n ei newid?

“Ysgol goedwig bob wythnos”

“Ysgol fwy”

“Gwisgo dillad ein hunain”

3. Beth allai fod yn dda am ysgol newydd sbon?

“Buarth mawr”

“Mwy o ffrindiau, mwy o fwyd, blwyddyn 2-6 yn cael eu cas pensiliau eu hunain”

“Llefydd chwarae gwell a mwy o amser chwarae”

4. Beth allai fod yn anodd neu’n achosi pryder?

“Dim ffrindiau”

“Mynd ar goll”

“Ddim yn gwybod beth i’w ddisgwyl gan athrawon”

5. A oes unrhyw beth arall rydych chi’n meddwl y dylai ddigwydd?

“Gwisg ysgol newydd am ddim”

“Cael dod â diaroglydd ein hunain”

“Dylai Ysgol Dewi Sant ac Ysgol y Santes Fair uno, nid y tair ysgol”



E.2.iv. Ysgol Sant Anthony – dydd Llun 6 Gorffennaf 2026

1. Beth ydych chi'n ei hoffi am eich ysgol?

“Ein ffrindiau”

“Rydym ni'n hoffi ein hathrawon, rydym ni'n hoffi gweld ein ffrindiau, ac mae'r gwaith yn hwyl”

“Teithiau ysgol, does dim gormod o bobl yma, rydw i'n hoffi fy ffrindiau a'r athrawon”

2. Beth fydddech chi'n ei newid?

“Y bwyd a rhai o'r rheolau, a mwy o gyfarpar”

“Gwneud teithiau preswyl yn rhatach”

“Dim byd”

3. Beth allai fod yn dda am ysgol newydd sbon?

“Bwyd gwell ac amgylchedd dysgu gwell”

“Mwy o athrawon, cwrdd â ffrindiau o ysgol wahanol”

“Mwy o ffrindiau, gôl pêl-fasged, lle chwarae mawr”

4. Beth allai fod yn anodd neu'n achosi pryder?

“Rhy bell, ac mewn ysgol bell os ydych chi'n gorfod teithio yno mewn car yna mae'n rhaid i chi wario mwy ar betrol”

“Cael eich bwlio, ddim yn gyfeillgar, pethau'n mynd yn ormod i chi, ddim yn gweld eich ffrindiau”

5. A oes unrhyw beth arall rydych chi'n meddwl y dylai ddigwydd?

“Creu ysgol gyfeillgar, yn hytrach na dymchwel yr ysgol beth am adeiladu ysgol uwchradd ar dop yr ysgol gynradd”

“Adeiladu ysgol yn agosach”

“Fe ddylen nhw ystyried y lleoliad yn ofalus, felly os ydyn nhw'n codi ysgol newydd mi fydd hi'n agos at bob ysgol, dylem gau pob ysgol yr un pryd”



E.2.v. Ysgol Dewi Sant – dydd Llun 6 Gorffennaf 2026

1. Beth ydych chi'n ei hoffi am eich ysgol?

“Rydym ni’n hoffi’r ysgol goedwig, yr ystafelloedd dosbarth, y cae a’r adeilad”

“Dw i’n hoffi bod yr ysgol yn fach, ac yn ystod ymarfer corff rydym ni’n cael mynd ar y cae ac rydym ni i gyd yn hoffi’r ysgol goedwig”

“Chwarae”

2. Beth fydddech chi’n ei newid?

“Hoffem ystafell ddosbarth ar gyfer anghenion arbennig, mae ar (enw) ac (enw) eisiau newid rhywfaint o’r bwyd”

“Mwy o bethau fel llwybr ffitrwydd, mwy o gyfarpar, llai o sbwriel, mwy o blanhigion”

“Dim byd!!!!”

3. Beth allai fod yn dda am ysgol newydd sbon?

“Athrawon gwahanol ar gyfer pob pwnc, cwrdd â phobl newydd, bod yn fwy cymdeithasol”

“Mi fydd yna bobl newydd yno, a gwisg newydd”

“Y bwyd”

4. Beth allai fod yn anodd neu’n achosi pryder?

“Athrawon a phobl newydd, gall effeithio ar rai pobl, canfod eich ffordd o gwmpas lle mawr gydag ychydig iawn o le i symud”

“Mynd ar goll” “Cael eich bwlio”

“Gormod o bobl”

5. A oes unrhyw beth arall rydych chi’n meddwl y dylai ddigwydd?

“Os ydi’r ysgol yn cau, ei throi yn amgueddfa. Peidiwch â’i chau, a chadwch hi’r un fath os nad ydych chi’n ei chau”

“Rydym ni’n meddwl y dylech chi adeiladu’r ysgol newydd heb ein hysgol ni. Dylech feddwl am y bobl ag anghenion arbennig.”

“Fe ddylen nhw adael yr ysgol fel mae”



E.2.vi. Ysgol y Santes Gwenffrewi – dydd Gwener 10 Gorffennaf 2026

1. Beth ydych chi'n ei hoffi am eich ysgol?

“Dim llawer o ystafelloedd, a'i bod yn llai”

“Mae'r athrawon yn neis”

“Mae cinio ysgol yn dda”

2. Beth fydddech chi'n ei newid?

“Mwy o offer chwarae”

“Aerdymheru”

“Dosbarthiadau mwy, mwy o doiledau”

3. Beth allai fod yn dda am ysgol newydd sbon?

“Mwy o ddiogelwch”

“Ardaloedd tawel os ydych chi'n drist neu'n flin”

“Dodrefn newydd, mwy o ffenestri”

4. Beth allai fod yn anodd neu'n achosi pryder?

“Cyrraedd yr ysgol”

“Plant iau yn cael eu bwlio”

“Cinio ysgol ddim cystal”

5. A oes unrhyw beth arall rydych chi'n meddwl y dylai ddigwydd?

“Estyniadau ar yr ysgolion”

“Ysgol Saesneg ac ysgol Gymraeg gyda'i gilydd”

“Peidiwch â chau ysgolion oherwydd bydd yn rhaid iddyn nhw deithio'n bellach”

E.2.vii. Sir y Fflint Ifanc – dydd Mercher 24 Mehefin 2026

Yn ystod Fforwm Sir y Fflint Ifanc, eglurodd y swyddogion y cynnig a dosbarthu holiaduron i gasglu barn y rhai a oedd yn bresennol.

1. Eich barn gyffredinol am y cynnig (Nifer)

- Rwyf yn llwyr o blaid y cynnig (0)

Dim sylwadau

- Dwi'n cefnogi'r cynnig ar y cyfan (5)

“Ysgol fwy modern”

“Dw i'n cytuno y dylid cau'r ysgol os nad oes llawer o fyfyrwyr”

- Dydw i ddim yn siŵr (16)

“I mi mae yna gydbwysedd rhwng y manteision a'r anfanteision, a dydw i ddim yn cael fy nhynnu naill ffordd na'r llall”

“Efallai y byddai'n haws i rai, ond byddai ar bobl angen teithio o'r Wyddgrug i'r Fflint ac nid oes gan rai rhieni/gofalwyr amser i wneud hynny”

“Mae'n bell i ddisgyblion Ysgol Dewi Sant, a byddai plant 3 oed yn yr un adeilad â phobl ifanc 18 oed”

“Dw i o blaid ac yn erbyn, dydw i ddim yn siŵr iawn”

“Efallai y bydd plant wedi diflasu yn yr ysgol (3-18 oed)”

- Ar y cyfan dydw i ddim yn cefnogi'r cynnig (6)

“Byddai'n rhaid i ddisgyblion o'r Wyddgrug naill ai symud ysgol neu deithio'n bell i fynd i'r ysgol, byddai'n rhaid cael sawl gwasanaeth bws, a fyddai'n achosi traffig”

“Dw i'n meddwl bod cymysgu grwpiau oed yn risg oherwydd y gall plant iau ddysgu pethau drwg gan y plant hŷn”

- Dydw i ddim yn cefnogi'r cynnig (1)

“Mae ysgol 3-18 oed yn syniad ofnadwy, rydw i'n mynd i ysgol o'r fath a dydw i ddim yn ei hoffi. Mae'r Fflint yn bell o'r Wyddgrug felly byddai llawer o blant yn cael eu tynnu allan o'r ysgol”

2. Effaith ar ddysgwyr

Beth ydych chi'n feddwl fyddai'r cynnig yn ei olygu i ddysgwyr?

Ystyriwch ddysgu, cyfeillgarwch, teithio, lles, cyfleoedd ac arferion dyddiol.

Effeithiau Cadarnhaol:

“Ni fyddai dysgwyr yr ysgol gynradd yn symud i adeilad ysgol gwahanol ym mlwyddyn 7 ac ni fyddai'n newid mawr iawn iddyn nhw”

“Ni fydd plant yn cael eu rhannu pan fydd CA2 wedi gorffen”

“Cyfleoedd dysgu newydd a ffrindiau newydd”



Effeithiau negyddol neu bryderus:

“Efallai y byddai’n rhaid i ddisgyblion deithio’n bellach”

“Efallai y bydd llawer o fwlio, effaith ar eu lles”

“Dim digon o athrawon ar gyfer yr ysgol”

3. Effaith ar y gymuned

Sut allai teuluoedd, gwasanaethau lleol a’r ardal ehangach gael eu heffeithio?

Manteision posibl:

“Llai o fysiau gan na fydd ar un ysgol bob oed angen cymaint o fysiau”

“Haws i deuluoedd”

“Cyfleoedd gwell i ddysgwyr wneud gweithgareddau gwahanol”

Heriau posib:

“Mwy o draffig”

“Byddai llywodraethu ysgol 3-18 oed yn ormod, llawer o benderfyniadau. Arholiadau ar gyfer blwyddyn 6, 10 ac 11 yn cael eu cynnal yr un pryd”

“Costau gwisg ysgol”

E.3. Ffurflen Ymateb

Noder: nid oes gwybodaeth am gydraddoldeb wedi'i gynnwys yn yr enghraifft

Ymgynghoriad Addysg Gatholig

Mae Esgobaeth Gatholig Wrecsam a Chyngor Sir y Fflint yn gofyn am eich barn ar gynnig i ad-drefnu'r ddarpariaeth addysg Gatholig yn Sir y Fflint. Cynigir:

- Cau Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony yn Saltney, a fydd yn gorffen gweithredu erbyn 31 Awst 2026
- Cyfuno Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant yn yr Wyddgrug, Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair yn y Fflint ac Ysgol Uwchradd Gatholig St Richard Gwyn yn y Fflint
- Byddai 1 ysgol unigol yn cau trwy uno 2 Awst a 2 yn uno 2 ysgol unigol. Ysgol Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir cyfrwng Saesneg 3-18, gydag enw a rhif ysgol newydd, wedi'i hagor ym mis Medi 2026, yn gweithredu dros y tri safle presennol;
- y byddai'r ysgol newydd yn gweithredu dros y tri safle presennol nes bydd adeilad ysgol newydd yn cael ei adeiladu (rhagwelir Medi 2030).

Dywedwch wrthym beth yw eich barn am y cynnig drwy lenwi'r holiadur.

Mae eich barn yn bwysig.

Sylwch na fydd ymatebion negyddol i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig, byddant yn cael eu cofnodi fel sylwadau anffafriol. Dim ond ar ôl cyhoeddi hysbysiad statudol y gellir cofrestru gwrthwynebiadau.

Os hoffech gael gwybod am gyhoeddiad yr adroddiad ymgynghori, byddwch yn gallu gadael eich manylion cyswllt ar ddiwedd y ffurflen arolwg.

1. Nodwch a ydych yn cytuno neu'n anghytuno â phob agwedd ar y cynnig:

Cau Ysgol Gynradd Gatholig St Anthony's yn Saltney erbyn 31 Awst 2026.

☐ Ydw ☐ Nac ydw

Uno Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant yn yr Wyddgrug, Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair yn y Fflint, ac Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn erbyn 31 Awst 2026 gan weithredu ar y tri safle presennol. Bydd yr ysgol unedig cyfrwng Saesneg 3-18 a Gynorthwyir yn Wirfoddol yn agor gydag enw a rhif ysgol newydd, gan agor ym mis Medi 2026.

☐ Ydw ☐ Nac ydw

ysgol newydd yn gweithredu ar draws y tri safle presennol hyd nes y bydd adeilad ysgol newydd yn cael ei adeiladu (dyddiad disgwylidig: 1 Medi 2030)

☐ Ydw ☐ Nac ydw



2. Defnyddiwch y blwch isod i roi sylwadau neu i egluro pa elfen o'r cynnig yr ydych yn ei gefnogi neu ddim yn ei gefnogi ac unrhyw ddewisiadau amgen i'r cynnig hwn.

3. Gyda pha ysgol(ion) ydych chi'n gysylltiedig?

- ☐ St Richard Gwyn Catholic VA High School
- ☐ St Mary's Catholic VA Primary School
- ☐ St David's Catholic VA Primary School
- ☐ St Anthony's Catholic VA Primary School
- ☐ Venerable Edward Morgan Catholic VA Primary School
- ☐ St Winefride's Catholic VA Primary School
- ☐ St Clare's Catholic Primary School
- ☐ Chester Catholic High School
- ☐ Other (please specify):

4. Beth yw eich cysylltiad/perthynas â'r ysgol rydych wedi nodi cysylltiad â hi?

- ☐ Rwy'n rhiant/gofalwr i ddisgybl yn yr ysgol
- ☐ Rwy'n ddisgybl yn yr ysgol
- ☐ Rwy'n ddarpar riant/gofalwr i ddisgybl yn yr ysgol
- ☐ Rwy'n athro/athrawes/aelod arall o staff yn yr ysgol
- ☐ Rwy'n llywodraethwr yn yr ysgol
- ☐ Rwy'n aelod o'r gymuned
- ☐ Arall (nodwch):

2. Safonau'r Gymraeg

Mae'r Cyngor yn gweithio o hyd i fynd i'r afael ag amcanion ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac mae'n eu hystyried wrth ddatblygu cynigion yn ein hysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Mae hyn er mwyn lliniaru unrhyw gamau gweithredu a allai effeithio'n negyddol ar yr iaith Gymraeg a pharhau i hyrwyddo a chodi proffil addysg cyfrwng Cymraeg i'n holl ddysgwyr.

Gan fod y cynnig hwn yn ymwneud ag ad-drefnu addysg sy'n seiliedig ar ffydd yn y sir, rydym yn cydnabod y bydd cyfraniadau llai ar gyfer targedau'r Cyngor. Fodd bynnag, gydag unrhyw ysgol newydd daw cyfle i feithrin sgiliau Cymraeg yn yr amgylchedd dysgu a'r gymuned ehangach.

Mae rhagor o wybodaeth am yr effaith ar y Gymraeg i'w gweld yn ein Hasesiad o Effaith ar y Gymraeg ar y dudalen ymgynghori.

Hoffem gael eich barn ar yr effaith y bydd y cynnig hwn yn ei gael ar y Gymraeg, yn arbennig o ran:

- cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; ac
- osgoi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Beth fyddai'r effaith yn eich barn chi...?

5. Cynyddu nifer y bobl sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg

- ☐ Cadarnhaol
- ☐ Negyddol
- ☐ Niwtral
- ☐ Ddim yn gwybod

6. Defnyddio gwasanaethau Cymraeg

- ☐ Cadarnhaol
- ☐ Negyddol
- ☐ Niwtral
- ☐ Ddim yn gwybod

7. Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol

- ☐ Cadarnhaol
- ☐ Negyddol
- ☐ Niwtral
- ☐ Ddim yn gwybod

8. Cymunedau Cymraeg eu hiaith

- ☐ Cadarnhaol
- ☐ Negyddol
- ☐ Niwtral
- ☐ Ddim yn gwybod

9. Trin y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg

- ☐ Cadarnhaol
- ☐ Negyddol
- ☐ Niwtral
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Ddim yn gwybod



10. Sut allwn ni gynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau'r effeithiau negyddol?

--

E.4. Ymateb Estyn

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

At ddibenion y ddogfen hon, cyfeirir at yr ysgolion dan eu henw byrrach unigryw. Er enghraifft, cyfeirir at Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyr Sant Anthony, Saltney, fel Ysgol Sant Anthony.

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Crynodeb/ Casgliad

Mae Estyn yn ystyried bod y cynnig yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal, o leiaf.

Disgrifiad a Manteision

Y cynnig yw:

- Cau Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyr Sant Anthony yn Saltney, a fydd yn rhoi'r gorau i weithredu erbyn 31 Awst 2027.
- Uno Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyr Dewi Sant yn Yr Wyddgrug, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyr y Santes Fair yn Y Fflint ac Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyr Sant Richard Gwyn yn Y Fflint. Yn sgil yr uno arfaethedig, byddai'r ysgolion unigol yn cau erbyn 31 Awst 2027 ac yn cael eu disodli gan ysgol Gatholig wirfoddol a gynorthwyr 3-18 cyfrwng Saesneg (gydag enw a rhif ysgol newydd) o 01 Medi 2027. Byddai'r ysgol newydd yn gweithredu dros y tri safle presennol hyd nes bod adeilad ysgol newydd yn cael ei godi (rhagwelir y bydd hyn ar 01 Medi 2030).

Mae'r awdurdod lleol wedi amlinellu rhesymeg glir ar gyfer ei gynnig. Mae hyn yn nodi'n eglur ac yn rhesymol y manteision a'r anfantaision disgwylledig o gymharu â'r sefyllfa bresennol a dewisiadau amgen eraill, a sut byddant yn rheoli unrhyw risg.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu disgrifiad clir o'r cynnig ac amserlen ragamcanol ar gyfer gweithdrefnau statudol a gweithredu. Mae'r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn rhan o'i gynnig.

Yr ysgolion sy'n cael eu heffeithio yn uniongyrchol gan y cynnig yw pedair o'r chwe ysgol Gatholig wirfoddol a gynorthwyr cyfrwng Saesneg yn yr awdurdod lleol, a'r ysgolion eraill yw Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyr yr Hybarch Edward Morgan, Shotton, ac Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyr y Santes Gwenffrewi, Treffynnon.

Mae'r cynnig yn nodi y bu gostyngiad cyson yn niferoedd y disgyblion ar draws tair o'r pedair ysgol dros y pum mlynedd ddiwethaf. Mae'r gostyngiad hwn yn digwydd gyflymaf yn Ysgol Sant Anthony lle mae niferoedd wedi mwy na haneru er 2020, gan arwain at 69% o leoedd dros ben erbyn mis Medi 2025. Er gwaethaf cynnydd cymedrol yn niferoedd y disgyblion yn Ysgol y

Santes Fair dros y pum mlynedd ddiwethaf, rhagamcenir y bydd y lleoedd dros ben yn gyffredinol ar draws y pedair ysgol yn cynyddu o 31% ym mis Medi 2025 i 47% ym mis Medi 2030. Mae'r cynnydd rhagamcanol hwn yn fwyaf difrifol yn Ysgol Sant Anthony ac Ysgol Dewi Sant lle rhagamcenir y bydd cyfraddau'r lleoedd dros ben ym mis Medi 2030 yn 79% a 69%, yn y drefn honno.

Mae'r Cyngor yn nodi'n gywir y bydd ei gynnig i gau Ysgol Sant Anthony yn lleihau nifer y lleoedd dros ben ar draws y ddarpariaeth Gatholig. Mae'r cynigiwr hefyd yn dadlau, nid yn afresymol, o ystyried y duedd gynyddol gyffredinol mewn lleoedd dros ben, y gallai cynaliadwyedd tymor hir y tair ysgol arall wella yn sgil eu huno, o bosibl. Yn benodol, mae'r cynnig yn nodi y gallai uno'r ysgolion alluogi ysgolion i gydgyfrannu adnoddau ac elwa ar arbedion maint. Mae'r cynnig hefyd yn awgrymu'n deg y byddai agor adeilad ysgol Gatholig wirfoddol a gynorthwyr 3-18 yn ddiweddarach, yn 2030, yn mynd i'r afael â diffygion a nodwyd yn addasrwydd adeiladau presennol ar draws yr ysgolion hyn, yn y tymor hwy. Capasiti cyffredinol yr adeilad newydd arfaethedig fyddai 1185 o leoad i ddisgyblion amser llawn; 315 yn y sector cynradd ac 870 yn y sector uwchradd. Mae rhagolwg presennol yr awdurdod lleol o ran niferoedd y disgyblion ar gyfer 2030 ar draws y pedair ysgol yn nodi y byddai hyn yn gadael 16% o leoad dros ben yn y sector cynradd a 37% o leoad dros ben yn y sector uwchradd.

Mae'r awdurdod lleol yn amlinellu chwe opsiwn posibl yn ei gynnig, ac mae'r rhain yn cynnwys cynnal y sefyllfa bresennol. Mae'r pedwar opsiwn amgen pellach yn cyflwyno gwahanol fodelau posibl i gau, uno a ffedereiddio, ac mae pob un ohonynt yn cynnwys buddsoddiad sylweddol i ailfodelu neu ailadeiladu ar safle Ysgol Sant Richard Gwyn i greu ysgol 3-18 newydd. Mae pob un o'r modelau hyn yn mynd i'r afael, i raddau mwy neu lai, â nifer y lleoedd dros ben a'r costau cynnal a chadw presennol a chostau yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â pharhau i weithredu nifer ddewisol o ysgolion cynradd Catholig gwirfoddol a gynorthwyr yn eu lleoliadau presennol. Mae'n ymddangos bod y cynigiwr wedi ystyried manteision ac anfanteision pob un yn briodol, a'r prif reswm dros ddiystyru pob un ohonynt yw methiant i fynd i'r afael â nifer uchel y lleoedd dros ben. Mae'n ymddangos bod hyn yn rhesymol.

Mae'r cynnig yn nodi bod angen gwella amgylchedd dysgu rhai ysgolion Catholig gwirfoddol a gynorthwyr yn rhan o'i nod i gyflawni cynaliadwyedd hirdymor, ac mae'n amlygu hyn trwy gynnwys gwybodaeth ynghylch y radd bresennol o ran cyflwr ac addasrwydd ar gyfer pob ysgol. Yr ôl-groniad o ran gwaith cynnal a chadw ar draws y pedair ysgol yw £1.45 miliwn. Er y byddai adeilad ysgol 3-18 newydd yn darparu amgylchedd gwell ar gyfer disgyblion a staff, nid yw'r cynnig yn nodi cost ddisgwyliedig debygol gwaith cynnal a chadw parhaus yn yr ysgolion yn y blynyddoedd cyn y bwriedir agor yr ysgol. Er y byddai'r cynllun arfaethedig i gau Ysgol Sant Anthony yn lleihau'r ôl-groniad hwn, mae costau cysylltiedig yr ysgol yn cyfrif am lai na 2% o'r cyfanswm hwn.

Mae'n ymddangos bod y cynigiwr wedi ystyried yr agweddau ariannol ar y cynnig yn addas, ac mae hyn yn cynnwys cydnabod nad oes cyllid grant wedi cael ei sicrhau eto, ac na ellir gweithredu'r cynnig hebdo.

Mae'r cynnig yn amlinellu y byddai angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol i godi adeilad ysgol 3-18 newydd. Amcangyfrifodd astudiaeth ddichonoldeb yn 2024 mai cost hyn fydd £55 miliwn, er y bydd angen modelu costau cyfoes i ddarparu amcangyfrif mwy cywir yn seiliedig ar amodau presennol y farchnad. Mae'r cynnig yn nodi y byddai arbedion posibl yn y dyfodol yn deillio o ostyngiad mewn lleoedd dros ben ac effeithlonrwydd cynyddol yn gysylltiedig â gweithredu un ysgol fwy.

Mae'r cynnig yn nodi gostyngiad blynyddol posibl mewn costau staffio ar draws ysgolion o £209,000, yn seiliedig ar niferoedd disgyblion 2025. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn ei gwneud yn glir sut byddai'r arbediad hwn yn cael ei gyflawni, neu'n fwy penodol, sut byddai'r strwythur staffio yn cael ei addasu o ganlyniad i ad-drefnu. Er enghraifft, nid yw'r cynnig yn ystyried tebygolrwydd diswyddo gwirfoddol neu orfodol nac effaith y newidiadau i rolau arwain. Mae'r cynnig yn datgan y byddai unrhyw arbedion sy'n cael eu rhyddhau trwy ad-drefnu yn cael eu

dileu o gyllideb gyffredinol yr ysgol, gan alluogi dosbarthiad tecach ar draws rhwydwaith yr ysgol gyfan.

Mae'r cynnig yn cynnwys pedair ysgol wirfoddol a gynorthwyr sy'n cael eu perchnogi gan yr Esgobaeth Gatholig. Mae'n rhoi manylion am drefniadau addas i drosglwyddo perchnogaeth yr adeiladau a'r safleoedd mewn camau priodol yn ystod y broses. Os na fydd angen safleoedd at ddibenion addysgol mwyach, byddai'n cael ei ddatgan nad oes angen adeiladau a'r tir mwyach o ran y portffolio Addysg ac Ieuenctid, a byddai rheolaeth yn cael ei throsglwyddo i adran Rhaglen Gyfalaf ac Asedau'r Cyngor.

Mae'n ymddangos bod y cynigiwr wedi ystyried effaith y newidiadau ar drefniadau teithio dysgwyr yn addas. Rhagwelir y byddai amseroedd teithio cyfartalog ar gyfer disgyblion sy'n mynychu Ysgol Sant Anthony ar hyn o bryd yn cynyddu o 15 munud i uchafswm o 45 munud. Bydd y disgyblion hyn yn gymwys i gael cludiant ysgol i Ysgol yr Hybarch Edward Morgan, yn unol â pholisi'r awdurdod lleol ar gludiant o'r cartref i'r ysgol, gan arwain at gynnydd posibl mewn costau o £60,000 y flwyddyn.

Ar ôl yr uno arfaethedig, byddai disgyblion o Ysgol Dewi Sant ac Ysgol y Santes Fair yn parhau i ddefnyddio'r un adeiladau ysgol ag o'r blaen, i ddechrau. O ystyried pa mor agos i'w gilydd y mae safleoedd Ysgol y Santes Fair ac Ysgol Sant Richard Gwyn, pan fydd yr un adeilad 3-18 newydd arfaethedig yn agor yn Y Fflint, ni fyddai unrhyw effaith arwyddocaol ar y pellterau cerdded na'r amseroedd teithio ar gyfer y disgyblion hyn a byddai costau cludiant yn aros yr un fath. Fodd bynnag, byddai'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n mynychu safle Ysgol Dewi Sant yn rhan o'r ddarpariaeth 3-18 wedyn yn wynebu pellterau cerdded ac amseroedd teithio hwy. Yn arwyddocaol, er bod bron i hanner y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Dewi Sant ar hyn o bryd yn byw mwy na dwy filltir o'r ysgol, i lawer, nid adeilad yr ysgol 3-18 newydd fyddai'r ddarpariaeth gynradd Gatholig agosaf mwyach (Ysgol yr Hybarch Edward Morgan fyddai hon). O ganlyniad, ni fyddai llawer o ddisgyblion Ysgol Dewi Sant sy'n parhau i fynychu'r ysgol wedi'i huno ar safle'r Fflint yn gymwys i gael cludiant o'r cartref i'r ysgol. Er y byddai hyn yn creu arbediad blynyddol posibl rhwng £33,000 a £40,000 ar gyfer yr awdurdod lleol, mae'r cynigiwr yn cydnabod y byddai cael gwared â chludiant o'r cartref i'r ysgol yn gwneud trosglwyddo i'r safle newydd yn anodd. Mae'r cynnig yn datgan y byddai'r awdurdod lleol yn gweithio gyda theuluoedd sydd wedi eu heffeithio i sefydlu trefniadau addas i helpu hwyluso mynychu safle'r ysgol newydd, er nad yw'n rhoi manylion am beth allai'r rhain fod.

O ystyried natur y cynnig, ni ragwelir y bydd unrhyw newidiadau i drefniadau derbyn a fyddai'n cael eu gweinyddu gan y corff llywodraethol newydd. Bydd y ddarpariaeth chweched dosbarth bresennol a gynigir yn Ysgol Sant Richard Gwyn yn debyg i'r hyn a fydd yn cael ei ddarparu yn rhan o'r ysgol newydd, yn cynnwys cadw darpariaeth yn Saesneg. Gan fod y cynnig yn lleihau capasiti cyffredinol addysg uwchradd Gatholig, mae nifer y lleoedd chweched dosbarth wedi lleihau ychydig bach, hefyd.

Mae'r cynnig yn cydnabod yn briodol y byddai cau Ysgol Sant Anthony, a darpariaeth ar safle Ysgol Dewi Sant yn ddiweddarach, yn cael effaith negyddol ar ddarpariaeth gofleidiol yn ardaloedd Saltney a'r Wyddgrug. Yn ychwanegol, gallai darparwyr gofal plant trydydd parti weld bod gostyngiad yn y galw os bydd disgyblion o'r ysgolion hyn yn trosglwyddo i'r ysgolion amgen arfaethedig. Fodd bynnag, mae'r cynigiwr yn nodi y gallai darparwyr gofal plant weld galw cynyddol yn ardal Y Fflint os bydd disgyblion o ysgolion eraill yn trosglwyddo i'r ysgol newydd.

Mae'r cynnig yn tybio'n rhesymol y bydd y newid arfaethedig mewn statws ysgol yn cael effaith niwtral ar y Gymraeg, at ei gilydd. Bydd darpariaeth iaith yn yr ysgol wedi'i huno yn parhau i gefnogi'r amcanion yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yr awdurdod lleol. Mae'r cynnig yn nodi y gallai cau Ysgol Sant Anthony olygu bod rhai disgyblion yn trosglwyddo i ddarpariaeth Gatholig amgen, agosach ar draws y ffin sy'n golygu na fydd y disgyblion hynny'n cael cyfle i ddysgu Cymraeg.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r awdurdod lleol yn rhoi ystyriaeth briodol yn ei gynrig i effaith y newid ar ansawdd a safonau mewn addysg. Er enghraifft, mae'n dangos adroddiad arolygu diweddaraf pob un o'r ysgolion gan Estyn, gan nodi'n benodol yr argymhellion perthnasol. Fodd bynnag, mewn cysylltiad ag Ysgol Sant Anthony (Ionawr 2019) ac Ysgol Dewi Sant (Mawrth 2020), mae'r wybodaeth hon yn eithaf hen, ac nid yw'r cynigiwr yn darparu gwerthusiad mwy diweddar sy'n nodi prif gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Nid yw'r cynigiwr yn darparu unrhyw wybodaeth yn deillio o ymweliadau arolygu gan yr Arolygiaeth Ysgolion Catholig, ychwaith.

Mae'r cynrig yn ystyried effaith bosibl y newidiadau ar addysgu a dysgu, yn cynnwys ar gyfer y disgyblion hynny ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn addas. Mae'r cynrig hefyd yn ystyried yr effaith ar arweinyddiaeth yr ysgol a'i darpariaeth ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion. Mae'r cynrig yn nodi'n deg nifer o fanteision posibl sy'n deillio o ddarparu cyfleuster newydd, pwrpasol, sy'n cynnwys mynediad at ofodau addysgu arbenigol sy'n cefnogi cyflwyno cwricwlwm eang ar draws pob oedran. Yn benodol, mae'r cynrig yn amlygu sut gallai darparu addysgu mewn grwpiau bach ac ystafelloedd ymyrraeth, gofodau symbyliad isel a chyfleusterau hylendid a hygyrchedd arbenigol wella cynnydd a lles disgyblion ag ADY a disgyblion eraill. Fodd bynnag, nid yw'r cynrig yn canolbwyntio'n benodol ar sut gallai'r newidiadau arfaethedig gefnogi meysydd cyffredin i'w gwella a nodwyd trwy arolygiadau Estyn, er enghraifft yr angen i wella cyfleoedd i ddisgyblion iau ddangos blaengaredd ac annibyniaeth yn eu dysgu, neu gryfhau darpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion.

Mae'r cynrig yn dadlau'n rhesymol fod ei fodel 3-18 yn cynrig cyfle i ddarparu cyfeiriad strategol clir ar draws sectorau a darparu dull mwy cydlynus o ran dysgu proffesiynol. Fodd bynnag, er bod y cynrig yn nodi manteision posibl fel cysondeb gwell yn ansawdd yr addysgu, cyfnod pontio mwy esmwyth ar gyfer disgyblion, a chwricwlwm mwy cynhwysol a difyr, nid yw'n rhoi manylion am fesurau na threfniadau penodol y bydd yn eu defnyddio i sicrhau bod y nodau hyn yn cael eu cyflawni. Yn ychwanegol, er bod y cynrig yn pwysleisio rôl arwyddocaol yr amgylchedd ffisegol yn nysgu a datblygiad disgyblion, nid yw gwybodaeth am yr adeilad newydd yn ddigon manwl ar hyn o bryd i ystyried yn wrthrychol sut gallai effeithio ar brofiad disgyblion.

Mae'r cynrig i uno Ysgol Dewi Sant, Ysgol y Santes Fair ac Ysgol Sant Richard Gwyn cyn codi adeilad 3-18 newydd yn golygu y bydd disgyblion yn aros ar eu safle presennol am o leiaf dair blynedd gyntaf yr ysgol 3-18 newydd. Felly, bydd tarfu cyfyngedig ar addysg disgyblion tra bod yr adeilad newydd yn cael ei godi. Mae hyn yn debygol o ddarparu cyfle addas i sefydlu strwythur arwain a llywodraethu ar y cyd ar draws y tri safle hefyd, a fydd yn helpu hwyluso'r cyfnod pontio i un safle, a phan fydd disgyblion yn symud o addysg gynradd i addysg uwchradd yn y cyfamser.

E.5. Crynodeb o Ymateb i'r Llythyr Cyfreithiol

Sefyllfa'r Cyngor

Mae'r hawliad yn gynamserol. Mae'r hawliwr ei hun yn derbyn y byddai trafodion adolygiad barnwrol ar hyn o bryd yn gynamserol oherwydd nad oes penderfyniad terfynol wedi'i wneud. Mae'r Cyngor yn ailadrodd na ellir defnyddio'r Protocol Cyn-Gweithredu i osgoi'r broses statudol nac i ofyn am ymarfer datgelu cyfochrog.

Roedd yr ymgynghoriad yn gyfreithlon â digon o wybodaeth. Mae'r Cyngor yn gwrthod yr honiad bod ymgynghoriad 2026 yn cynnwys gwybodaeth anghywir, anghyflawn neu oedd wedi dyddio yn ei hanfod. Rhoddwyd digon o wybodaeth i ymgynghoreion i ddeall y cynigion, y rhesymau a'r goblygiadau ac i ymateb yn ystyrllon.

Roedd y wybodaeth ariannol yn ddigonol ar gyfer y cam hwn. Mae'r Cyngor yn gwrthod beirniadaeth sy'n ymwneud â'r gost gyfalaf £55 miliwn a amcangyfrifwyd, ffigyrau cynnal a chadw/ôl-groniad, benthyca, costau cludiant, arbedion, derbynebaw cyfalaf a chyllid Llywodraeth Cymru. Ei sefyllfa ganolog yw nad oedd ymgynghoriad yn gofyn am gost adeiladu derfynol na model ariannol gydol oes wedi'i ddatblygu'n llawn. Roedd amcangyfrifon wedi'u nodi'n briodol a gellir mireinio modelu ariannol yn briodol wrth i'r cynnig ddatblygu.

Roedd achos addysgol a strategol digonol. Mae'r Cyngor yn dweud bod yr ymgynghoriad yn mynd i'r afael yn ddigonol â materion gan gynnwys cyflwr ac addasrwydd ysgolion presennol, lleoedd gwag, darpariaeth y cwricwlwm, ADY, lles, arweinyddiaeth, darpariaeth y Gymraeg a chynaliadwyedd hirdymor. Nid oedd angen i'r ymgynghoriad arwain at ffeil gyflawn o dystiolaeth i gefnogi pob budd honedig.

Cafodd dewisiadau amgen eu hystyried. Mae'r Cyngor yn gwadu peidio â gweld dewisiadau amgen, gan nodi'n benodol bod ffederasiwn wedi'i hystyried ar gyfer Ysgol Winifred ac Ysgol yr Hybarch Edward Morgan, ond ni ystyriwyd y byddai hyn yn gallu mynd i'r afael â'r pryderon gwaelodol o ran cynaliadwyedd. Nid yw'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i ddilyn trywydd pob dewis amgen na chynnwys manylion cynhwysfawr amdanynt yn y ddogfen ymgynghori.

Cafodd twf tai a galw gan ddisgyblion eu hystyried. Dywedodd y Cyngor ei fod wedi rhoi ystyriaeth i ddatblygiadau tai wedi'u cynllunio/arfaethedig, amcanestyniadau disgyblion, tueddiadau demograffig, dewis rhieni a chapasiti mewn rhannau eraill o ystâd yr ysgol. Nid oedd gofyn i'r ymgynghoriad ailgynhyrchu pob set data neu gyfrifiad gwaelodol.

Ni chafodd Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ei thorri. Mae'r Cyngor yn cydnabod y ddyletswydd barhaus dan adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010 ac mae'n dweud bod ystyriaethau cydraddoldeb, gan gynnwys anableddau, ADY a chrefydd neu gred wedi cael eu hystyried ac y byddant yn parhau i gael eu hystyried. Mae ymgynghori ei hun yn rhan o gasglu dystiolaeth am effaith a chamau lliniaru posibl, yn enwedig o ran teithio, hygyrchedd ac anghenion disgyblion unigol.

Nid yw canfyddiadau Estyn yn cadarnhau anghyfreithlondeb. Ar draws yr amryw seiliau, ateb rheolaidd y Cyngor yw bod arsylwadau Estyn yn ymwneud ag agweddau ehangach o'i wasanaethau addysg ac nid ydynt yn cadarnhau bod yr ymgynghoriad penodol hwn yn gyfreithiol ddiffygiol.

Datgeliad

Nid oes gofyn i'r Cyngor gyflawni'r cais datgelu ehangach ym mharagraff 57(a)–(z). Mae paragraff 13 o Brotoocol Cyn-Gweithredu'r Adolygiad Barnwrol yn ei gwneud yn ofynnol i geisiadau cymesur am wybodaeth fod yn angenrheidiol er mwyn deall y penderfyniad a gaiff ei herio/honiad arfaethedig, yn hytrach na darparu hawl cyffredinol i ddeunydd gweithio gwaelodol y Cyngor.

Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn gadael y drws yn agored i geisiadau penodol wedi'u targedu am ddogfennau penodol neu gategoriâu wedi'u diffinio'n glir pan fo'r hawlydd yn egluro pam fo'r deunydd yn angenrheidiol er mwyn deall camgymeriad honedig penodol o ran cyfraith gyhoeddus.

Mae'r Cyngor hefyd yn cadw pob hawl ar safle, cynamseroldeb, prydlondeb, cyfyngiadau, ateb amgen, cymorth a chostau ac mae'n dod i'r casgliad nad yw'n angenrheidiol cyhoeddi adendwm nac ailagor/ailadrodd yr ymgynghoriad, ar ôl yr amserlen statudol na rhoi sicrwydd na fydd yn derbyn pwynt oedi/cyfyngiad amser, gan ddibynnu'n benodol ar CPR 54.5.

Llythyr pellach dyddiedig 17 Medi

Mae'r Cyngor yn gwrthod y cynnig bod yn rhaid i Aelodau'r Cabinet gael Llythyr yr Hawlydd cyn yr hawliad, ymateb y Cyngor i'r llythyr hwnnw a mynediad at gyngor cyfreithiol y Cyngor. Bydd penderfynwyr perthnasol yn cael y wybodaeth a'r cyngor angenrheidiol trwy drefniadau llywodraethu priodol y Cyngor ac ni all yr hawlydd orchymyn ffurf na chynnwys cyngor mewnol na chyfreithiol, yn enwedig gan fod y Cyngor yn cadw breintiau proffesiynol cyfreithiol yn ffurfiol ac nid yw'r ffaith fod yr hawlydd yn dosbarthu gohebiaeth yn uniongyrchol i Aelodau Etholedig yn newid y sefyllfa honno.

Yn y pen draw:

1. nid oes penderfyniad terfynol wedi ei wneud eto;
2. mae'r Cyngor o'r farn bod yr ymgynghoriad yn gyfreithlon a bod digon o dystiolaeth ar gyfer y cam presennol;
3. mae'r Cyngor yn gwrthod pob sail cyfraith gyhoeddus a gynigir;
4. nid yw canfyddiadau ehangach Estyn yn dangos diffygion yn yr ymgynghoriad penodol hwn;
5. nid oes gofyn i'r Cyngor gyflawni ymarfer datgelu helaeth ac anwarantedig yr hawlydd, ailagor yr ymgynghoriad nac atal y broses statudol; a
6. mae'r Cyngor yn cadw ei safbwynt ar unrhyw adolygiad barnwrol yn y dyfodol, gan gynnwys dadleuon cyfyngiadau a gweithdrefnol.